

# CABINET

## CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD</b>	Dydd Mawrth, 25ain Hydref, 2022
<b>AMSER</b>	1.00 y.h.
<b>LLEOLIAD</b>	Cyfarfod Aml Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu <a href="https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home">https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home</a>
<b>PWYNT CYSWLLT</b>	Annes Siôn 01286 679490 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru

### AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig Siencyn	Arweinydd y Cyngor
Nia Wyn Jeffreys	Dirprwy Arweinydd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Beca Brown	Aelod Cabinet Addysg
Berwyn Parry Jones	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC
Dafydd Meurig	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Elin Walker Jones	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Menna Jones	Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol

## RHAGLEN

	<b>Eitem</b>	<b>Cyflwynir gan</b>	<b>Swyddog</b>	<b>Tud.</b>
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYG			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 27 MEDI 2022			3 - 14
6	ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNIION A GWELLA GWASANARTH A LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON	Cyng. Menna Jones	Geraint Owen	15 - 35
7	CYNLLUN CYMORTH COSTAU BYW DEWISOL	Cyng. Ioan Thomas	Bleddyn Jones a Catrin Thomas	36 - 56
8	CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	57 - 79
9	ADRODDIAD TROSOLWG ARBEDION - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	80 - 91
10	RHAGLEN GYFALAF 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022	Cyng. Ioan Thomas	Ffion Madog Evans	92 - 100

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 19 GORFFENNAF 2022

---

### Yn bresennol-

Y Cyngorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

### Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Blant a Cefnogi Teuluoedd)

Eitem 7: Delyth G Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb)

Eitem 8: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith) a Gwenllian Williams (Ymgynghorydd Iaith)

Eitem 9: Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol)

Eitem 10: Catrin Love (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant)

Eitem 11: Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes) a Hawis Jones (Rheolwr Comisiynu, Contractau a Prosiectau)

Eitem 13-15: Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg) a Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater bryd.

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

### 5. COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIWDYD AR Y 19 GORFFENNAF 2022

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 19 Gorffennaf 2022 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2021-22

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Elin Walker Jones

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a oedd yn adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer 2021-22.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gofyn i Aelodau Cabinet fod yn ymwybodol o waith y Panel Rhiant Corfforaethol. Eglurwyd fod yr adroddiad yn nodi fod gan y Cyngor gyfrifoldeb clir i fod yn Rhiant Corfforaethol i bob plentyn yng Ngwynedd, ac i sicrhau gofal effeithiol, diogel, sefydlog ac addas i blant mewn gofal.

Amlygwyd y prif bwyntiau yn yr adroddiad a oedd yn cynnwys fod gostyngiad wedi bod yn nifer y plant mewn gofal dros y flwyddyn 2021-22, gyda 46 plentyn wedi dod i ofal am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn ac 54 wedi mynd allan o ofal. Pwysleisiwyd ei bod yn ymddangos fod y strategaeth o gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn gweithio gyda nifer uchel o blant yn parhau i fod adref dan oruchwyliaeth neu wedi eu lleoli gyda gofalwyr maeth o fewn eu teuluoedd.

Tynnwyd sylw yn benodol at Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain gan nodi fod y Swyddfa Gartref wedi rhoi cyfarwyddyd i bob Awdurdod Lleol i dderbyn dyraniad o geiswyr lloches. Amlygwyd rhwng Rhagfyr a Mawrth y bu i'r Cyngor dderbyn 3 ceisiwr Lloches, a rhaid nodi fod darganfod lleoliadau addas wedi bod yn heriol o safbwynt eu hoedran, anghenion ieithyddol a diwylliannol ac yn aml iawn y trawma maent wedi ei profi. Nodwyd y cynlluniau a fydd yn cael eu blaenoriaethu gan y Panel eleni a oedd yn cynnwys ail edrych ar y strategaeth ac i barhau i glywed a gwrando ar lais y plant mewn gofal.

Ychwanegodd Pennaeth Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd fod niferoedd ceiswyr lloches bellach yn 10 unigolyn, gan nodi fod yr amserlen wedi bod yn hynod dynn gyda 5 diwrnod i ddod o hyd i leoliad iddynt. Eglurwyd fod cyfrifoldeb mawr ar staff i sicrhau cefnogaeth iddynt a bellach fod un gweithiwr cymdeithasol wedi cael eu ail leoli i ganolbwyntio ar y gefnogaeth yma.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd pwysigrwydd i holl gynghorwyr Gwynedd i fynychu'r hyfforddiant am eu rôl fel Rhiant Corfforaethol.
- Diolchwyd am addasiadau sydd wedi ei gnwued i'r panel eleni gyda'r Prif Weithredwr bellach yn Gadeirydd y Panel, gan nodi y bydd hyn yn sicrhau fod pob adran yn ymwybodol o'i cyfrifoldeb yn y maes hwn.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020/24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

## PENDERFYNIAD

Nodwyd y cynnwys a cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2021-22, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24.

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai dyma ail Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. Eglurwyd fod y ddwy flynedd dan sylw wedi bod yn rhai anarferol ac anodd ac wedi effeithio ar y maes cydraddoldeb. Mynegwyd er nad yw'r gwasanaeth wedi gallu cyflawni popeth oeddent yn ei fwriadu yn ystod y cyfnod, mae gwaith paratoi a chynnydd wedi ei wneud ym mhob un o'r 5 amcan ac mae disgwyl i gwblhau'r holl waith o fewn oes y Cynllun.

Tynnwyd sylw at pob amcan yn unigol gan nodi'r prif lwyddiannau. O ran yr amcan 1: Cryfhau a dyfnhau capasiti ac ymrwymiad staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd ym maes Cydraddoldeb trwy sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir, nodwyd fod hyfforddiant wedi ei gynnal o bell ac fod gwaith wedi ei wneud ar yr e-fodiwl.

Mynegwyd gyda amcan 2: Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchoddedig, fod gwaith yn y maes hwn wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl ond eu bod wedi adnabod fod y gwaith hyn yn rywbeth sydd angen ei wneud yn barhau gan ddefnyddio gwahanol ddulliau. Wrth amlygu Amcan 3: Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau, mynegwyd fod templed asesiad effaith cynhwysfawr wedi ei greu yn rhanbarthol ac wedi ei addasu ar gyfer ei ddefnyddio yng Ngwynedd. Amlygwyd mai un o'r prif lwyddiannau oedd i'r Cabinet fabwysiadu Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad.

Nodwyd o ran Amcan 4: Gweithredu i leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall, er fod nifer o aelodau staff a gwblhawyd holiadur cydraddoldeb wedi codi o 41.8% i 48% eglurwyd nad oedd hyn yn ddigon o gynnydd o bell ffordd ac o ganlyniad y bydd gwaith yn cael ei annog a gweithio gydag Adrannau. O ran yr amcan olaf: Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu nodwyd fod cynllun peilot wedi ei gynnal yn yr adran Cefnogaeth Gorfforaethol i holi'r rhai oedd yn gadael y Cyngor am unrhyw rwystrau oeddent wedi ei wynebu. Eglurwyd yn ogystal fod y Cyngor yn gweithio gyda Inclusive Employers er mwyn gwella gwasanaeth y Cyngor ar gyfer pob nodwedd.

Ychwanegodd y Ymgynghorydd Cydraddoldeb fod peth llithriad wedi bod gyda'r gwaith o ganlyniad i'r pandemig, ond eu bod yn symud ymlaen ac fod y gwasanaeth yn hyderus y byddant yn cyflawni o fewn amserlen y cynllun.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolch am yr adroddiad ac atgoffwyd pawb fod hyrwyddo cydraddoldeb yn gyfrifoldeb i bawb ac nid y gwasanaeth yma yn unig.

## 8. DIWYGIO POLISI IAITH GYMRAEG Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd yr addasiadau a wnaethpwyd i'r Polisi Iaith ac argymhellwyd fod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r Polisi diwygiedig.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Nodwyd fod y Polisi Iaith yn gosod gofynion sydd yn sicrhau bod gwasanaethau a swyddogion yn gweithio mewn ffordd sy'n cyd-fynd efo gofynion Safonau'r Gymraeg. Mynegwyd ei fod hefyd yn gosod allan ble mae'r Cyngor yn mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau, drwy weithredu mewn ffordd sydd yn rhoi y Gymraeg gyntaf, neu yn codi statws y Gymraeg

Eglurwyd fod angen i adolygu wedi codi yn sgil camau gweithredu a osodwyd ar ôl ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, ac hefyd sylweddoliad bod rhai pethau wedi newid yn y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu a cyflwyno gwasanaethau (yn enwedig defnyddio mwy o wasanaethau ar-lein). Mynegwyd fod angen adlewyrchu newidiadau mewn Prosiectau blaenoriaeth fel y Dynodiadau Iaith, a Hunanwasanaeth ac arweiniad y Prosiect Enwau Lleoedd Cynhenid Gymraeg.

Amlygwyd y prif newidiadau sydd i'w gweld yn yr adroddiad o ran gosod egwyddorion cyffredinol ar ddechrau pob adran, i roi arweiniad ar gyfer gweithredu yn ddigidol ble nad oedd arweiniad cynt ac i gryfhau'r arweiniad ar asesu effaith. Mynegwyd fod trafodaethau wedi ei cynnal yn fewnol gyda grwpiau staff ar yr addasiadau yma ynghyd a trafodaeth ddwy waith gyda aelodau'r Pwyllgor Iaith.

Nodwyd fel y camau nesaf y bydd yr Uned Iaith a Chraffu yn llunio rhaglen gyfathrebu fel bod pob adran yn ymwybodol o'r addasiadau sydd wedi eu gnwued i'r Polisi Iaith.

Ychwanegodd yr Ymgynghorydd Iaith fod addasiadau wedi eu gnwued i'r Polisi Iaith yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Iaith, ac mae hyn er mwyn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd a nodwyd y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r prif faterion gweithlu a oedd yn derbyn sylw y llynedd. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y prif heriau sydd yn wynebu'r Cyngor fel cyflogwr dros y flwyddyn yma a'r tymor hirach.

Tynnwyd at y prif negeseuon yn yr adroddiad, yn gyntaf wrth ddod allan o'r pandemig, mae'r Cyngor fel pob Cyngor a chyflogwr yn gweithredu o fewn cyd-destun cyflogaeth

sydd wedi newid yn sylweddol bellach. Mynegwyd fod arferion gweithio wedi newid yn barhaol ac fod o ganlyniad ei fod yn golygu fod rhai problemau recriwtio a chadw staff yn dechrau dod i'r amlwg. Pwysleisiwyd fod mwy o ofyn nac erioed i gynllunio gweithlu yn effeithiol, ac i geisio rhagweld heriau'r dyfodol a pharatoi ar gyfer y sgiliau a pobl y bydd eu hangen i ymdopi a hynny.

Nodwyd fod iechyd a lles staff yn gwbl allweddol i'r Cyngor a nodwyd fod pwysau gwahanol bellach ar deuluoedd gyda'r cynnydd mewn costau byw ac mae angen i'r Cyngor fel cyflogwr fod yn fyw i sut y gall y straen hwnnw effeithio ar lesiant staff. Mynegwyd fod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ac arbrosi a threfniadau gwaith 'hybrid' ar gyfer staff, ac nodwyd y bydd trefniadau yn sefydlogi dros fisoedd y gaeaf ac yn rhoi gwell darlun o'r hyn fydd yn ei le yn y tymor hirach. Ond pwysleisiwyd mae anghenion gwasanaeth a thrigolion Gwynedd fydd yn gyrru'r trefniadau terfynol yn y pen draw.

Pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr adroddiad yn edrych yn benodol ar y gweithlu a themâu oedd i'w gweld yn y Cyngor dros y flwyddyn diwethaf. Ychwanegwyd fod y themâu a amlygwyd yn parhau i fod yn bwysig i'r gwasanaeth ac y byddant yn parhau i fod yn flaenoriaeth dros y cyfnod i ddod. Nodwyd fod pwysau ar wasanaethau i recriwtio a cadw staff i'w weld ar draws y Cyngor ac fod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar hyn.

#### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod angen uchafu a hyrwyddo'r cynllun Prentisiaethau sydd i'w weld o fewn y Cyngor ac i wneud mwy o'r cynllun.
- Mynegwyd ei bod yn arwyddocaol fod cynnydd mawr wedi bod yn y ffigyrau o swyddi yn cael ei ail hysbysebu dros y blynyddoedd diwethaf, a nodwyd fod angen sicrhau fod y Cyngor yn edrych ar sut mae yn hysbysebu swyddi ac yn cyfleu y ddelwedd orau ar gyfer darpar ymgeiswyr. Eglurwyd fod y farchnad recriwtio wedi newid dros gyfnod y pandemig ac fod y Cyngor yn ceisio dal i fyny gyda'r oes i wella y ffordd maent yn hysbysebu.
- Eglurwyd fod yr aelodau yn ymwybodol o staff yn gadael y Cyngor i weithio mewn cwmnïau ac awdurdodau eraill oherwydd y gallu i weithio o adref a holwyd os yw'r Cyngor yn cynnig yr un math o delerau. Nodwyd fod gweithio yn hyblyg a rhithiol yn rhoi gyfleoedd a heriau i'r Cyngor ac amlygwyd yr angen i'r Cyngor fod yn annog ymgeiswyr i ymuno a'r gweithlu.
- Amlygwyd yr angen i'r Cyngor fod yn hyrwyddo y buddiannau o fod yn gweithio i Awdurdod Lleol ac i arddangos holl becyn cyflogaeth y Cyngor.

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr Adroddiad Blynyddol.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Nodwyd mai dyma'r ail flwyddyn olynol heriol iawn i'r adran oherwydd sefyllfa Covid-19. Mynegwyd fod yr heriau wedi

bod yn wanhaol i flwyddyn gyntaf y pandemig gyda heriau yn ymwneud ag ymateb i ofynion Llywodraeth oedd yn newid yn barhaus, adfer Gwasanaethau yn ddiogel a dychwelyd staff bregus yn ôl i'w gwaith yn ddiogel. A hynny, pwysleisiwyd, tra oedd ffigyrau Covid yng Ngwynedd yn uwch nag oeddent yn y flwyddyn flaenorol.

Eglurwyd o ran damweiniau a digwyddiadau fod 113 achos o staff yn dal Covid yn eu gwaith wedi ei hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mynegwyd o ran damweiniau fel arall ategwyd mai symud a thrin pwysau a llithro a baglu oedd y prif achosion am anafiadau. Nodwyd fod gwaith yn digwydd i daclu anafiadau symud a thrin yn benodol.

Mynegwyd fod Covid wedi cael effaith ar iechyd staff yn gyffredinol ac mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi gweld y nifer cyfeiriadau uchaf ers sefydlu'r Uned ac mae hyn yn wir o ran Gwasanaeth Cwnsela Medra a ffisiotherapi gyda straen, iechyd meddwl a phroblemau Cyhyrsgerbydol yn brif resymau am y cyfeiriadau.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr adroddiad hwn yn adrodd ar y sefyllfa y llynedd, a nodwyd ei bod yn braf gallu adrodd fod camau breision yn cael ei gwneud i ddal i fyny efo risgiau sydd wedi eu hamlygu dros y blynyddoedd. Eglurwyd fod prosiect penodol ar Iechyd Meddwl ar hyn o bryd gan fod cyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol wedi bod yn uwch ynghyd â hyfforddiant i Reolwyr ac Arweinyddion Tîm am Iechyd Meddwl.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod digwyddiad yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr a fydd yn fandadol i Reolwyr ac Arweinyddion Tîm yn benodol ar Iechyd Meddwl, ble fydd hanner y trefniadau yn cael ei roi ar normaleiddio sgwrs am Iechyd Meddwl gyda Staff.
- Tynnwyd sylw yn ogystal i hyfforddiant i Ionawr i Gynghorwyr am adnabod diffygion Iechyd Meddwl.

## **11. ADRODDIAD DRAFFT O SEFYDLOGRUYDD MARCHNAD GOGLEDD CYMRU 2022**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

### **PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr Adroddiad Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru 2022 ac argymhell i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Asesiad Anghenion Poblogaeth y Gogledd wedi ei gyflwyno yn ôl ym mis Mawrth eleni ac fod yr adroddiad hwn yn ddilyniant iddo. Eglurwyd ei fod ar ei daith drwy'r Pwyllgor Craffu, Cabinet ynghyd a'r Cyngor Llawn cyn mynd ymlaen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yna ei gyflwyno i'r Llywodraeth. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad ar hyn o bryd yn parhau fel drafft gan eu bod yn disgwyl am ddata cyfredol er mwyn ei ddiweddu.



Mynegwyd fod yr adroddiad hwn yn un pwysig a fydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau nid yn unig yng Ngwynedd ond yn rhanbarthol yn ogystal. Amlygwyd fod nifer o'r meysydd sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad yn faterion sydd wedi cael eu hadnabod yn barod gan y Cyngor.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Busnes fod yr Asesiad Anghenion Rhanbarthol yn rhestru yr anghenion tra fod yr adroddiad hwn fel asesiad y farchnad yn cyflwyno sut i gyflenwi ar gyfer gyfarch yr anghenion. Pwysleisiwyd fod y canfyddiadau yn cyd-fynd a'r materion sydd yn cael ei amlygu yng Ngwynedd fel prinder cartrefi nyrsio.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod aelodau yn aml yn ddrwgdybus o adroddiadau sydd yn cael eu gorfodi ar y Cyngor ond fod yr adroddiad hwn yn arddangos canfyddiadau ddiddorol sy'n amlygu patrymau cyflenwi a cynnydd yn y galw. Nodwyd fod y sefyllfa fregus tu hwnt i waith y Cyngor o ran cyllido a staffio, ond holwyd a fydd camau pellach yn cael ei gnwued gan y Llywodraeth yn dilyn derbyn yr adroddiad. Eglurwyd fod arwyddion yn dod gan y Llywodraeth eu bod yn rhoi mwy o bwysigrwydd i'r math yma o adroddiadau ac eu bod yn mynd i roi bwyslais i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol.

## **12. PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDY MOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

### **PENDERFYNIAD**

Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y gynnig posib i gynyddu'r Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor tu hwnt i 100% a hyd at 300% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi pecyn ymgynghori cyhoeddus yn unol â'r adroddiad ac unrhyw argymhellion gan y Cabinet.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn gofyn i fynd i ymgynghoriad cyhoeddus. Nodwyd fod rhaid i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad blynyddol ar raddfa'r Premiwm, ac er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, os am gynyddu'r lefel y Premiwm, mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig.

Eglurwyd fod Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 wedi caniatáu disgrisiwn i'r Cyngor godi premiwm o hyd at 100% ar Dreth Cyngor rhai dosbarthiadau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor ond nodwyd bydd yr uchafswm yma yn cynyddu o o 1 Ebrill 2023 a bydd gan awdurdodau lleol y grym i godi premiwm o hyd at 300%. Mynegwyd fod mynd i'r afael â phrinder tai fforddiadwy o fewn Gwynedd yn ogystal â'r nifer uchel o ail gartrefi yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae codi Premiwm Treth Cyngor yn un o'r arfau sydd ar gael i ddelio a'r sefyllfa.

Ategwyd fod Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 yn nodi fod 'ail gartrefi' wedi'u categorio i ddau ddsbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:

- Dosbarth A – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- Dosbarth B – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u ddodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
- Dosbarth C – Annedd sydd yn ddi-dddeiliad a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.

Nodwyd ar 13 Gorffennaf, roedd dros 4600 o dai ei destun y Premiwm ar ail gartrefi (Dosbarth B), 200 ohonynt ddim yn talu'r premiwm gan eu bod yn destun eithriadau a 760 o fewn Dosbarth A ble mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf y flwyddyn berthnasol. Mynegwyd ers cyflwyno Premiwm fod y Cyngor wedi penderfynu yn flynyddol i godi'r un lefel o bremiwm ar eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi, ond mae modd codi lefelau gwahanol os yw'r amgylchiadau lleol yn cyfiawnhau hynny.

Eglurwyd o ran gofynion cyfreithiol fod y penderfyniad yn cael ei wneud yn flynyddol gan y Cyngor Llawn ac fod angen cyflwyno Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn. Ychwanegwyd fod gofyn i gynnal ymgynghoriad ac ymgysylltu gyda rhan ddeiliad cyn codi unrhyw bremiwm a nodwyd fod yr adran yn bwriadu ei gynnal am 28 diwrnod yn ystod mis Hydref. Yn dilyn hyn, ategwyd y bydd adroddiad i'r Cabinet ym mis Tachwedd cyn ei drafod yn y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr. Pwysleisiwyd y bydd y mater yn cael ei graffu yn ogystal gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro fod unrhyw benderfyniad Cabinet yn ddarostyngedig i gyfnod galw i mewn i Graffu, ond eglurwyd fod gan y Cabinet hawl o dan rhan 7 o'r Cyfansoddiad i wneud Penderfyniad Brys mewn trafodaeth â Chadeirydd y Cyngor. Gofynnwyd i'r Cabinet i'w drin fel penderfyniad brys fel bod modd i'r adran symud ymlaen i weithredu yn syth, gan nodi y bydd hyn yn cael ei adrodd yn y Cyngor Llawn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd cefnogaeth i fynd i ymgynghori ac yn deall yr angen i'r penderfyniad gael ei wneud mewn brys.
- Mynegwyd angen i anfon llythyr at Lywodraeth Cymru er mwyn gofyn am yr eithriadau sydd i'r rhai sy'n talu Premiwm.

### **13. ADOLYGU CYFANSODDIAD PWYLLGOR CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

#### **PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd argymhelliad yr Adran Addysg a Phwyllgor CYSAG Gwynedd fyddai newid aelodaeth Grŵp B fel a nodir :

- Grŵp A – Cristnogaeth a Chredoau eraill
  - Grŵp B – cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid – Cadw nifer y seddi ar 5
- Dyrannu'r seddi fel a ganlyn:

- 3 sedd i'w rhannu rhwng yr Undebau Athrawon a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd (NAS/UWT; UCAC ; NEU; ASCL a'r NAHT – i'w benderfynu gan Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd)
- 1 sedd i'w llenwi gan y Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig (GYDCA)
- 1 sedd i'w llenwi gan Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU)

— Grŵp C - Aelodau Etholedig - cadw yn 7

— Cyfetholedig - Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau

(3 pleidlais sydd sef 1 i bob Grŵp, nid oes pleidlais gan yr aelodau Cyfetholedig).

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai cais yw'r adroddiad i adolygu cyfansoddiad CYSAG Gwynedd. Eglurwyd nad yw'r Cyngor wedi ystyried y cyfansoddiad ers 2019, ac fod newid wedi bod i'r undebau yn dilyn hyn. Mynegwyd fod angen i addasu'r Cyfansoddiad er mwyn cryfhau cynrychiolaeth athrawon ar y Pwyllgor.

Ychwanegodd y Swyddog Adnoddau Cynorthwyol fod CYSAG wedi ei greu o 3 grŵp – y cyntaf Cristnogaeth a Chredoau Eraill a oedd yn destun yr adolygiad yn ôl yn 2019, Yr ail grŵp sef Cynrychiolaeth Athrawon ac Phenaethiaid ac yna y grŵp olaf sef Aelodau Etholedig. Eglurwyd mai gofyn sydd yma i addasu yr ail grŵp, ganfod un o'r undebau bellach ddim yn bodol ac o ganlyniad fod angen addasu'r seddi. Gofynnwyd i'r 5 sedd gael ei rhannu fel ganlyn:

- 3 sedd i'w rhannu rhwng yr Undebau Athrawon a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd (NAS/UWT; UCAC ; NEU; ASCL a'r NAHT – i'w benderfynu gan Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd)
- 1 sedd i'w llenwi gan y Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig (GYDCA)
- 1 sedd i'w llenwi gan Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU)

## 14. CYMERADWYO A MABWYSIADU MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

### PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd a mabwysiadwyd Maes llafur Cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol ag argymhelliad yr Adran Addysg a Chyngor Ymgynghorol Statudol ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Gwynedd a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn amlygu y newid mewn maes llafur a fydd yn symud o Addysg Grefyddol traddodiadol i fod yn Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Eglurwyd y bydd y maes llafur newydd yn cynnwys safbwyntiau athronyddol anghrefyddol yn ychwanegol i grefydd. Croesawyd y newid hwn gan

amlygu ei fod yn gyfle i bobl ifanc adnabod yr hyn sydd yn gyffredin rhwng pawb ac i drafodaethau difyr am wahaniaethau a fydd yn hybu parch i bawb.

Ychwanegodd y Swyddog Adnoddau Cynorthwyol fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn sgil sefydlu Cwricwlwm i Gymru. Nodwyd fod dyletswydd cyfreithiol ar bob awdurdod yng Nghymru i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig er mwyn adolygu'r maes llafur a bu i Wynedd ei gynnal ar 15 Chwefror 2022. Penderfyniad unfrydol y Gynhadledd oedd mabwysiadu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

## **15. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod wedi bod yn gyfnod prysur i'r adran ac fod yr adroddiad yn amlygu ystod o waith sydd yn cael ei wneud. Mynegwyd er fod ymgais yma i dynnu popeth ynghyd fod un thema i'r gweld drwy'r adroddiad sef lles, cyrhaeddiad a chynhwysiad. Eglurwyd fod y maes yma wedi bod yn bwysig erioed ond fod y pandemig wedi amlygu'r heriau sydd yn wynebu plant a pobl ifanc y sir. Pwysleisiwyd yn wyneb yr holl heriau fod yr Aelod Cabinet wedi ei rhyfeddu at wydnwch pobl ifanc ac fod yr adran yn ceisio lliniaru'r heriau ac i gefnogi y plant a pobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial.

Tynnwyd sylw at rai cynlluniau fel a ganlyn, nodwyd fod pob ysgol yn gweithredu rhaglen Cyflymu Dysgu o ganlyniad i'r pandemig ac fod gwaith arbennig yn cael ei wneud i dargedu y cyfnod cyn ac ar ôl dysgu. Pwysleisiwyd fod y gwaith o drawsnewid y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau ac fod blaen arolwg parodrwydd yn dangos cynnydd cryf iawn ar draws y sir i'r paratodau sydd wedi eu gwneud eisoes.

Ymfalchiwyd yn y gwaith sydd wedi ei wneud i'r Strategaeth Ddigidol gyda dyfais electroneg bellach wedi ei roi i bob plentyn o flwyddyn 3 i 11 er mwyn lleihau'r anghyfartaledd rhwng plant, sydd a'r rhyddid o fynd a'r dyfais adref gydag hwy. O ran y cynllun Cinio am Ddim mynegwyd fod y sir o flaen amserlen ac yn falch ei fod yn gweithio.

Amlygwyd balchder yn y gyfundrefn Addysg Drochi gan fod sawl ffynhonnell ariannol wedi galluogi'r adran i gomisiynu gwaith i greu tref rhithiol a fydd yn rhoi'r cyfle i blant siarad Cymraeg yn rhithiol cyn mentro i'w ddefnyddio yn y byd 'go iawn'. Eglurwyd fod hyn yn gwneud y gwaith o ddysgu'r iaith yn fwy tebyg i gem yn hytrach na gwers.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

— Llongyfarchwyd pobl ifanc y sir ar eu canlyniadau TGAU a Lefel A.

- Holwyd o ran y Strategaeth Addysg Ddigidol os pob plentyn bellach wedi derbyn eu teclynnau. Cadarnhawyd eu bod wedi rhannu'r cyflenwad olaf dros yr wythnosau diwethaf.
- Cwestiynwyd os o ran y teclynnau yn rhan o'r Strategaeth Ddigidol os yw disgyblion yn cael mynd a hwy adref. Mynegwyd fod yr hawl i fynd a hwy adref yn hanfodol i'r cynllun i sicrhau fod pob plentyn yn cael yr un cyfle a cael y cyfle i wneud eu gwaith cartref heb unrhyw heriau.
- Holwyd sut mae'r adran Arlwygo a Glanhau yn dygymod gyda'r gofynion ychwanegol o ran darpariaeth cinio ysgol ar draws y sir. Nodwyd fod galw sylweddol uwch ond fod llawer o waith wedi ei wneud i sicrhau offer a cyfleusterau cywir. O ran staffio, nodwyd fod yr adran wedi gallu ymdopi ar galw hyn yma ond ei bod yn wych gweld teuluoedd yn manteisio ar y cyfle.

## 16. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr aelod yn falch o nodi ar y cyfan fod perfformiad yr adran yn gyffredinol dda. Tynnwyd sylw at rai penawdau, gan gychwyn gyda Cyflawni Arbedion. Eglurwyd nad sôn am arbedion o fewn yr Adran Gyllid mae'r rhan yma o'r adroddiad ond arbedion ar draws y Cyngor, a nodwyd nad yw rhai adrannau yn gallu cyflawni £0.5 miliwn o arbedion a oedd i'w ddisgwyl eleni. Mynegwyd fod disgwyliad l'r setliad ar gyfer 2023/24 gan y Llywodraeth fod yn is ac ei bod yn gynyddol debygol na fydd modd llithro cynlluniau i gael cynllun ariannol cytbwys. Nodwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno dros y misoedd nesaf.

O ran yr Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nodwyd fod pwysau capasiti wedi bod yn broblem, ond dros fisoedd cyntaf y flwyddyn fod y gwasanaeth wedi bod yn gwneud archwiliadau mewnol ar oddeutu 70 o Gynghorau Cymuned. Tynnwyd sylw at waith da mae'r Gwasanaeth Trethi wedi yn ei wneud yn sicrhau dosbarthu £150 i aelwydydd dros y sir, ac wedi llwyddo i'w wneud i 99% o aelwyd erbyn diwedd Mehefin. Nodwyd mai hyn oedd y ffigwr gorau yng Nghymru. Mynegwyd fod Datganiad Cyfrifon drafft y Cyngor wedi ei gyflwyno ym mis Mehefin eleni a rhyfeddwyd at allu'r adran i'w gwblhau mewn cyfnod mor fyr o amser.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd llwyddiant yr adran i sicrhau taliadau o £150 i aelwydydd y sir ac fod y gwasanaeth yn haeddu canmoliaeth yn dilyn sicrhau taliadau dros gyfnod Covid yn ogystal.
- Mynegwyd fod lleihau mewn cyfnod prosesu budd-daliadau a holwyd beth oedd hyd prosesu ceisiadau. Nodwyd oddeutu 13.5 diwrnod ar gyfer cais newydd a 5.5 diwrnod os addasiadau..

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2:50pm

---

**CADEIRYDD**

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>25 Hydref 2022</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Cynghorydd Menna Jones</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Geraint Owen</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>01286 679335</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth 2021/22</b>

#### 1. PWRPAS (PENDERFYNIAD A GEISIR)

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi trosolwg o drefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin a chwynion a gwella gwasanaethau yn ystod 2021/22 gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau.

Cyflwynir dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol, sy'n fesur o berfformiad y Cyngor yn y cyd-destun hwn.

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad a chynnig unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol.

#### 2. RÔL Y CABINET

Mae gofyn ar i'r Cabinet sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin a chwynion o fewn y Cyngor.

Gwahoddir y Cabinet i ystyried yr wybodaeth a gyflwynir, a chynnig unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol.

#### 3. CYFLWYNIAD

##### 3.1 Cefndir

Cyflwynwyd "Trefn Cwynion a Gwella Gwasanaeth" y Cyngor yn 2015, wedi ei llunio dan oruchwyliaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac felly'n gyson gyda threfniadau cwynion cyrff cyhoeddus eraill.

Mabwysiadwyd y drefn gan y Cabinet gyda'r amcan o ddod â buddiant penodol i'r dinesydd drwy ganolbwyntio ar y datrysiad yn hytrach na'r broses yn ogystal a chaniatáu i swyddogion ymdrin yn gyflymach â chwynion.

Symudwyd perchnogaeth ymateb i gwynion i'r Adrannau unigol, ond gyda swyddogaeth cydgyrdio a chynnig arweiniad yn parhau dan arweiniad y Swyddog Monitro a gyda chymorth y Swyddog Gwella Gwasanaethau.

Diweddarwyd y Polisi Pryderon a Chwynion ar 1 Ebrill 2021, a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb am weithredu'r drefn Cwynion a Gwella Gwasanaeth i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol dan ofal y Swyddog Gwella Gwasanaeth o fewn y tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad.

Dylid nodi nad yw'r drefn hon yn berthnasol i ddefnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, gan fod trefn statudol ar wahân ar eu cyfer hwy. Mae'r ysgolion hefyd yn gweithredu eu trefniadau cwynion eu hunain.

### **3.2 Ymateb i Gwynion - Eglurhad o'r termau a ddefnyddir**

#### **3.2.1 Datrys Cŵyn Anffurfiol**

Achwynydd yn cysylltu'n anffurfiol gyda'r Swyddog Gwella Gwasanaeth neu'r Gwasanaeth perthnasol i ddatrys y pryder.

#### **3.2.2 Ymchwiliad i Gŵyn Ffurfiol**

Ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn yr Adran berthnasol i'r gŵyn, gan swyddog sydd ar lefel ddigon uchel ac sy'n annibynnol o ffynhonnell y gŵyn.

#### **3.2.3 Cŵyn i'r Ombwdsmon**

Gall achwynydd fynd â'r gŵyn at yr Ombwdsmon os yw'n anfodlon gydag ymateb ffurfiol y Cyngor.

Wedi edrych ar y gŵyn, gall yr Ombwdsmon benderfynu ar un o'r canlynol:

- *Dim Ymchwiliad* – ble mae'r Ombwdsmon yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r awdurdod wedi ymdrin â'r mater, ac yn teimlo nad oes angen ymchwilio ymhellach. Gall hefyd fod yn fater sydd tu hwnt i'r awdurdodaeth.
- *Cynamserol* - os yw'r Ombwdsmon o'r farn nad yw'r awdurdod wedi cael cyfle i ystyried y mater.
- *Cynnal ymchwiliad pellach* - ble mae'r Ombwdsmon yn teimlo bod angen ymchwilio ymhellach, i asesu sut mae'r awdurdod wedi ymdrin â'r mater.
- *Setliad* – ble mae cytundeb gyda'r achwynydd, ac maent yn derbyn y datrysiad

## **4. AMLDER YR ADRODDIAD**

Oherwydd amgylchiadau unigryw y blynyddoedd diwethaf, mae'r cyfnod o adrodd i'r Cabinet wedi amrywio rhwng 6 mis a 12 mis. Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn nodi cyflwyno adroddiad i'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth pob chwarter a'r Cabinet ddwy waith y flwyddyn a dyma yw'r bwriad i'r dyfodol.

Mae data 'byw' ar gael i Benaethiaid Adran, Tîm Uwch Arweinyddiaeth a'r Cabinet unrhyw adeg ar ofyn.

Mae'r adroddiad yma'n crynhoi'r datblygiadau ar gyfer y cyfnod 01.04.2021 - 31.03.2022, gan ganolbwyntio ar Gwynion Ffurfiol Dilys yn ogystal a chwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon.




## 5. DATA MEINTIOL

### 5.1 Nifer Cwynion: Sefyllfa Bresennol

Math o Gwynion	Nifer 2020/21 (01/04/2020 - 31/03/2021)	Nifer 2021/22 (01/04/2021 - 31/03/2022)
Cwynion Ffurfiol (Dilys)	36	60
Cwynion at yr Ombwdsmon	28: 15 Dim Ymchwiliad 5 Cynamserol 0 Heb gael ateb 6 Setliad 0 Ymholiad 1 Ymchwiliad wedi cau 1 Adroddiad 0 Cwyn wedi ei dynnu nol	41: 33 Dim Ymchwiliad 2 Cynamserol 0 Heb gael ateb 5 Setliad 0 Ymholiad 0 Ymchwiliad wedi cau 0 Adroddiad 1 Cwyn wedi ei dynnu nol


### 5.2 Nifer Cwynion: Sefyllfa Dros Gyfnod ers 2018-19

Math o Gwynion	Nifer 2018-19	Nifer 2019-20	Nifer 2020-21	Nifer 2021-22
Cwynion Ffurfiol Dilys	49	42	36	60
Cwynion at yr Ombwdsmon	35	37	28	41




### 5.3 Amser Ymateb Dros Gyfnod ers 2018-19

2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
8.6 diwrnod	7 diwrnod	7 diwrnod	7 diwrnod




## 6. DADANSODDIAD O'R CWYNION (Cyffredinol)

### Mesul Categori Blwyddyn 2020/21 Chwarter 1 – 4



## Mesul Categori Blwyddyn 2021/22 Chwarter 1 – 4



### Dadansoddiad fesul Adran – Gweler Atodiad 1

Gellir darparu gwybodaeth fanwl am Gwynion penodol pe dymunir.

#### 7. PRIF NEGESEUON

- Gwelwyd gostyngiad yn gyntaf, wedyn cynnydd sylweddol mewn Cwynion Ffurfiol yng nghyfnod y pandemig, ond mae'r nifer Cwynion i'r Ombwdsmon wedi aros yn gyson. SYLWAD: *Gwelir patrwm tebyg gan y mwyafrif o Awdurdodau (cadarnhad gan yr Ombwdsmon).*
- Mae'r patrwm / tueddiad dros gyfnod hirach yn dangos bod nifer Cwynion Ffurfiol wedi gostwng yn raddol ers 2018-19, ond wedi cynyddu yn ddiweddar.
- Amser ymateb wedi aros yn gyson ar 7 diwrnod (8.6 diwrnod yn 2018-19).
- Gwelwyd newid mewn diwylliant gyda Gwasanaethau ar y cyfan yn derbyn cwynion mewn ffordd fwy positif ac adeiladol er mwyn dysgu ohonynt, gyda'r amser ymateb yn gostwng.

#### 8. LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON A DATA CENEDLAETHOL

Mae Llythyr Blynnyddol (2021/22) yr Ombwdsmon i Gyngor Gwynedd newydd ei dderbyn (**Atodiad 2**).

Bwriedir i'r llythyr gynorthwyo aelodau i graffu ar berfformiad cwynion y Cyngor ac adnabod unrhyw gamau i'w cymryd o ganlyniad.

Fel a ofynnir yn y llythyr byddwn yn:

- Ymgysylltu â gwaith Safonau Cwynion yr Ombwdsmon
- Rhoi hyfforddiant i staff
- Darparu data cwynion
- Rhoi gwybod i'r Ombwdsmon am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 30 Medi.

**Gan nad oedd yn bosib adrodd i'r Cabinet cyn hyn mae neges eisoes wedi caei ei anfon at yr Ombwdsmon yn egluro'r sefyllfa. Nodi'r dyddiadau adrodd a hefyd ein camau gweithredu, er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio a gofynion y Llythyr Blynyddol.**

Cyflwynir data Cenedlaethol gan Swyddfa'r Ombwdsmon fel atodiadau i'r Llythyr Blynyddol, sy'n crynhoi ffigurau Cwynion a adroddwyd gan Awdurdodau Cymru.

Cysylltwyd efo Swyddog Ombwdsmon i ofyn am ddehongliad o'r ffigurau. Croesawyd ein ymholiad gan nodi y bysent yn dymuno i bob Awdurdod ystyried y data yn ofalus fel ni.

Nodwyd y canlynol (ar lafar):

- Ni ddylid ystyried y tabl fel "*league table*"
- Nid yw niferoedd isel yn golygu fod Cyngorau yn well na rhai efo nifer uchel, gan nad oedd Cyngorau o bosib wedi cofnodi eu cwynion yn yr un modd
- Mae ffigurau Gwynedd yn ymddangos yn realistig
- Mae trefn Gwynion Gwynedd yn amlwg yn gweithio, ac rydym yn barod i ddysgu gwersi o Gwynion

## 9. EDRYCH I'R DYFODOL / CAMAU NESAF

Er gwybodaeth y sefyllfa hyd yma eleni ydi -.....

- 20 Cwyn Ffurfiol Dilys rhwng 01/04/22 a 31/08/22
- 15 Cwyn Ombwdsmon rhwng 01/04/22 a 31/08/22

(11 Dim Ymchwiliad; 2 Dim Ymchwiliad – Cynamserol; 1 Setliad; 1 Ymchwiliad)

Oherwydd y ffordd mae Swyddfa'r Ombwdsmon yn cofnodi eu data, mae'r ffaith fod y Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Amgylchedd yn mynd i'w gwneud yn haws i gysoni ffigurau efo Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon o hyn allan. Yn flaenorol roedd cryn waith dadansoddi gan nad oeddem yn gallu eu cofnodi yn yr un modd yn anffodus.

Rydym wedi cydweithio'n agos efo Swyddog Hyfforddi, Swyddfa'r Ombwdsmon ar ddatblygu hyfforddiant 'Gofal Cwsmer' drwy ddefnyddio cwynion fel arf dysgu. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan fynychwyr y cwrs pilot a'r sesiwn bellach a gafodd ei gynnal, ac mae rhaglen o sesiynau pellach wedi'i threfnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Ein bwriad yw parhau i weithio gyda timau rheoli adrannol a swyddogion o fewn y Gwasanaethau i sicrhau dealltwriaeth o'r drefn Gwynion a chael ymrwymiad i'w gweithredu. Yn sgil hyn, gobeithiwn leihau'r amser ymateb i Gwynion, a pharhau i Wella Gwasanaeth.

Mae gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i greu Hyfforddiant newydd "Ateb Gohebiaeth" gan fod ymchwiliad diweddar i hyn wedi amlygu nad yw pawb yn gweld y pwysigrwydd o ymateb yn amserol.

Mae'r Wal Lwyddiannau yn dal i dyfu, a da iawn ydi gweld fod nifer helaeth o Ddiolchiadau/Canmoliaethau wedi'u derbyn gan y cyhoedd. Mae gweld gwerthfawrogiad y cyhoedd yn gymorth mawr i godi morâl staff, yn enwedig y rhai sydd ar y rheng flaen.

## **10. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Mae'n rhan o'r drefn gwynion fod y Cabinet yn derbyn adroddiad ar drefniadau cwynion y Cyngor o safbwynt cynnal gwasanaethau o ansawdd. Wrth i Deddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021 – Adran 115 osod swyddogaeth yn nwylo y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol bydd angen adolygu y drefn adrodd er cyfarch hyn.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIAD 1

	ADRAN	GWASANAETH	CYFNOD	CATEGORI Y GWYN	NATUR Y GWYN / RHWYSTR	GWERSI A DDYSGWYD	YMATEB I'R CWYNYDD	CAMAU GWELLA GWASANAETH	SYLWADAU Plis nodwch fod y Cwynion wedi eu nodi o dan "Categori" nid o reidrwydd am fod eu natur i gyd yn hollol yr un fath
1	Tai & Eiddo	Tai	01/04/2021 – 31/03/2022	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer yn teimlo iddi gael ei gadael i lawr, gan nad oedd wedi cael unrhyw ymateb i'w chais am dy gan y tîm Opsiynau Tai.  Dim modd siarad efo'r swyddog perthnasol – wedi gadael negeseuon ond y swyddog ddim yn ei ffonio hi'n ôl.	Angen cadw cysylltiad rheolaidd gyda chleientiaid er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau a newid mewn amgylchiadau.	Ymddiheuro i'r cwsmer am y diffyg ymateb amserol a rhoi eglurhad o'r sefyllfa.  Sicrhau i'r cwsmer mai'r swyddog dan sylw oedd y gorau i ddelio a'i chais gan ei bod yn ymwybodol o'i chefnidir a'i sefyllfa.  Cynnig cyfarfod efo'r cwsmer a swyddogion eraill i geisio symud y mater yn ei flaen.  Rhoi diweddariad i'r cwsmer fod ei chais ar y system ac ym mha Fand oedd hi.	Staff yn creu nodyn atgoffa ar galendrau 'Outlook' - i'w hatgoffa i gysylltu gyda chleientiaid o leiaf unwaith bob tair wythnos.  Staff yn dynodi amser penodol bob diwrnod i ymateb i alwadau ffôn ac ymholiadau.  Cynnal 'Adolygiad Gwasanaeth' llawn, ac astudio'r camau i roi gwasanaeth - yn dilyn cais gan gleient digartref.	10 cwyn o dan y categori yma
Tud. 22	Tai ac Eiddo	Tai	01/04/2021- 31/03/2022	Ymddygiad Swyddog	Cwsmer yn anhapus efo sut cafodd ei thrin ar y ffon wedi iddi gysylltu a'r Gwasanaeth.	Angen sicrhau fod staff yn rhoi'r Gofal Cwsmer gorau gallent bob amser. Rhaid bod yn sensitif i deimladau'r cwsmer a dangos empathi pan yn bosib, er ar adegau rydym yn deall fod cwsmeriaid yn gallu bod yn tu hwnt o heriol.	Uwch Reolwr y Gwasanaeth wedi anfon i'r cwsmer yn ymddiheuro am yr oedi mewn ymateb ac yn egluro fod y Rheolwr i ffwrdd yn sâl ar hyn o bryd ag y daw nol ati cyn gynted ag y bydd yn ôl yn ei waith. Yn dilyn dychwelyd i'w waith Rheolwr wedi ymateb i'r cwsmer, yntau eto wedi ymddiheuro am y gwasanaeth gofal cwsmer gwael a gafodd. Hefyd wedi cynnig iddi apelio yn erbyn y penderfyniad os yw'n dymuno. Nodi ei fod wedi ymrwymo i'r staff i gyd yn eu tro fynychu hyfforddiant Gofal Cwsmer sydd ar gael gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu Sefydliad.	Rheolwr y Gwasanaeth wedi holi am Hyfforddiant Gofal Cwsmer i'w staff ac yn trefnu eu bod i gyd yn ymrwymo i fynychu'r Hyfforddiant hwnnw y eu tro.	1 cwyn o dan y categori yma
3	Tai ac Eiddo	Tai	01/04/2021 – 31/03/2022	Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor	Cwsmer yn cwyno am ddiffyg gweithrediad cywir gan y Gwasanaethau Digartrefedd ac Opsiynau Tai parthed ei chais am eiddo. Felly mae hi yn teimlo ei bod wedi colli allan ar fod ar restr am fwy nac un tŷ. Cwsmer wedi tynnu Swyddog o Shelter a'i Aelod Seneddol i fewn i'r mater hefyd. Hefyd yn holi am daliad grant gafodd addewid amdano.	I barhau i adolygu gweithrediad Polisiâu Cenedlaethol perthnasol yn y maes yn rheolaidd. Sicrhau fod taliadau grant yn dal i gael eu trefnu ar frys i gwsmeriaid os ydynt wirioneddol eu hangen.	Uwch Reolwr wedi cysylltu efo'r cwsmer i roi sicrhau iddi fod y mater yn derbyn sylw gan y Gwasanaeth. Anfonwyd y Polisiâu a/neu'r linciau perthnasol i'r Polisiâu Cenedlaethol at y cwsmer. Swyddog wedi ymateb i'r cwsmer yn egluro bod taliad o'r grant ar y ffordd iddi. Cwsmer yn anfodlon efo'r ymateb a gafodd ac felly wedi mynd a'i chwyn ymlaen at yr Ombwdsmon. Mater o dan sylw'r Ombwdsmon ar hyn o bryd.	Angen sicrhau fod taliadau grant i gwsmer yn dal i gael eu talu heb oediad pan fod sefyllfa frys yn codi.	1 cwyn o dan y categori yma

ATODIAD 1

4	Cyllid	Refeniw a Incwm	01/04/2021 – 31/03/2022	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer wedi cwyno na chafodd ymateb i'w ohebiaeth gan y Gwasanaeth ers dros 3 mis neu fwy.	Pawb i geisio sicrhau fod gohebiaeth yn cael ei gydnabod a'i ymateb o fewn amserlen realistig gan geisio cydymffurfio a Polisi Ateb Gohebiaeth y Cyngor	Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaeth wedi ymchwilio gan gynnig ymddiheuriad llawn i'r cwsmer am y diffyg ymateb. Hefyd wedi egluro'r sefyllfa yn llawn a chlir iddo o ran Treth Cyngor.	Pawb i geisio sicrhau ymateb ar eu cyfle cyntaf i ohebiaeth gan gwsmeriaid. Os nad oes modd ymateb yn llawn yn fuan am beth bynnag reswm, yna anfon nodyn cydnabod pellach i'r un sydd yn dod yn syth o'r system yn egluro fod y mater yn derbyn sylw.	3 gwyn o dan y categori yma
5	Cyllid	Incwm a Refeniw	01/04/2021 – 31/03/2022	Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor	Cwsmer yn cwyno am iddi dderbyn gwys oherwydd camgymeriad ar ran y Gwasanaeth	Fod angen atgoffa staff i fod yn ofalus a chymryd cam yn ôl weithiau pan yn gweithredu a rhoi eu hunain yn esgidiau'r cwsmer.	Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaeth a'r Rheolwr perthnasol o fewn y Gwasanaeth wedi ymchwilio i'r mater ac wedi sylweddoli fod camgymeriad wedi bod efo'r cyfrif. Wedi egluro hyn wrth y cwsmer ac wedi ymddiheuro yn ddiffuant am y camgymeriad a'r loes a achoswyd iddi.	Nodyn atgoffa i staff i gyd am oblygiadau camgymeriadau o'r fath. Gofyn iddynt i gyd fod yn ofalus iawn wrth wneud unrhyw newidiadau rhag cael cwyn o'r fath eto.	5 cwyn o dan y categori yma
6	Economi a Chymuned	Morwrol	01/04/2021 - 31/03/2022	Materion laith a Chydraddoldeb	Derbyniwyd cwyn gan gwsmer oedd yn defnyddio sgwter "mobility" i fynd o gwmpas. Ei gwyn oedd nad oedd yn gallu cael mynediad i draethau. Y rhai lle roedd yn cael mynediad nid oedd ganddo hawl mynd a chi yno.		Rheolwr wedi ymateb i'r cwsmer yn egluro beth oedd y Polisi Mynediad i Draethau. Gan egluro fod modd mynd ar bob traeth heblaw 2 ar hyn o bryd. Nodi hefyd fod y Polisi ar fin cael ei adolygu felly efallai byddai'r sefyllfa yn newid.	Asesiad Cydraddoldeb yn cael ei wneud fel arfer wrth newid Polisiâu.	1 cwyn o dan y categori yma
Tyd. 23	Economi a Chymuned	Morwrol	01/04/2021 – 31/03/2022	Anhapus efo penderfyniad	Cwsmer wedi cwyno yn syth i'r Pennaeth Gwasanaeth am ei fod wedi derbyn anfoneb i dalu ffioedd lansio. Nid oedd yn credu ei bod yn ofynnol iddo dalu'r ffioedd dan sylw ac yn wir 'roedd yn credu fod rheolau GDPR wedi cael eu torri, gan ei fod yn honni fod aelod o staff wedi rhannu ei fanylion efo Gwasanaeth arall. Hefyd cwyno am ddiffyg ymateb i'w ohebiaeth blaenorol i'r Gwasanaeth.	Er nad oedd unrhyw reolau GDPR wedi eu torri roedd yn dda o beth i atgoffa pawb o'r rheolau dan sylw. Hefyd yn bwysig atgoffa'r staff o'r rheidrwydd i gadw at ofynion Ateb i Ohebiaeth sef cydnabod o fewn 7 diwrnod ac ateb o fewn 15 diwrnod lle'n bosib. Os yn methu cadw at yr amserlen yna anfon nodyn pellach ar ôl y nodyn cydnabod at y cwsmer i'w diweddarau am y sefyllfa.	Rheolwr Gwasanaeth wedi ymchwilio'n llawn i'r cwynion amrywiol. Nid oedd sail i'r gwyn GDPR, gan fod y manylion yn glir ar safle we y cwmni, felly nid oedd rheolau wedi eu torri yn yr achos yma. Rheolwr wedi ymddiheuro am y diffyg ymateb i'r ohebiaeth flaenorol gan gyfaddef fod y Gwasanaeth wedi methu fan hyn. Hefyd wedi cynnig eglurhad llawn i'r cwsmer am y rhesymeg o orfod talu ffioedd lansio.	Atgoffa staff o'r rheidrwydd i gydymffurfio a'r Polisi Ymateb i Ohebiaeth. Hefyd atgoffa staff o reolau GDPR.	1 cwyn o dan y categori yma
8	Addysg	Anableddau Dysgu	01/04/2021 – 31/03/2022	Ymddygiad Swyddog	Cwyn gan gwsmer fod swyddog wedi galw yn ei chartref yn ddi-rybudd heb apwyntiad. Nodi nad oedd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth am y mater.	Trefnu i ebostio cwsmeriaid os yn addas o hyn allan i arbed problem o'r fath eto o ran diffyg llythyr yn eu cyrraedd.	Swyddog o'r Gwasanaeth wedi cysylltu nol efo'r cwsmer yn ymddiheuro am unrhyw boen mae'r mater wedi ei achosi iddi hi a'r teulu. Egluro fod llythyr wedi cael ei anfon allan ac ymddiheuro os na chafodd y llythyr am ryw reswm.	Wedi trefnu i gysylltu a'r cwsmer ar ebost o hyn allan rhag ofn trafferthion pellach efo'r post yn ei chyrraedd. Hefyd swyddog yn cynnig cyfarfodydd dros Teams i'w trefnu ar adeg cyfleus i'r ddwy ochr.	1 gwyn o dan y categori yma

ATODIAD 1

	9	Addysg	Anabledau Dysgu ac Ysgolion	01/04/2021-31/03/2022	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer yn cwyno nad oedd yn teimlo fod Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol yn gwneud digon i'w chynorthwyo efo problem roedd yn ei gael o ran plant yn ei phoeni yn ystod amser ysgol a thu allan i oriau ysgol. Felly wedi cysylltu drwy'r drefn Gwynion i uchafu ei chwyn gan fod trefn yr Ysgol wedi methu.	Angen i swyddogion y Gwasanaeth dderbyn a deall fod trefn Gwynion Gorfforaethol mewn lle a bod angen iddynt gydymffurfio a'r drefn honno pan fo cwyn yn eu cyrraedd lle mae methiant drwy'r drefn Ysgol	Swyddog o'r Gwasanaeth wedi mynd nol at y cwsmer yn egluro fod Polisi newydd mewn lle yn yr Ysgol ac awgrymu iddi ddilyn y drefn unwaith eto ac ail gyflwyno ei chwyn. Pennaeth newydd yn yr Ysgol yn ceisio symud y mater yn ei flaen. Hefyd Pennaeth y Gwasanaeth wedi cymryd diddordeb yn y mater ac yn cysylltu a'r cwsmer i ymddiheuro am y camdealltwriaeth blaenorol parthed ei chwyn.	Angen sicrhau fod y Swyddogion yn deall y drefn Pryderon a Chwynion Gorfforaethol ac yn sylweddoli fod y drefn yna am reswm i gynorthwyo y ddwy ochr i ddod i ddatrysiaid ac i weld cyfleoedd i Wella Gwasanaeth.	3 cwyn o dan y categori yma
	10	Addysg	Ysgolion	01/04/2021 – 31/03/2022	Anhapus efo penderfyniad	Rhiant yn anhapus efo'r ffaith nad yw ei mhab yn cael "interim alternative education" am ei fod yn methu mynychu'r ysgol. Teimlo eu bod yn cael eu gadael i lawr gan y Gwasanaeth.	Angen sylweddoli beth yw anghenion pob plentyn, efallai nad ydi beth sydd yn siwtio'r mwyafrif yn siwtio pawb.	Y Gwasanaeth wedi egluro wrth y cwsmer eu bod am drefnu i'r holl swyddogion sydd yn berthnasol i'r achos gyfarfod yn dilyn cyfnod gwyliau i weld beth fyddai'r gefnogaeth orau y gellid ei gynnig i'r teulu	Sicrhau fod y Gwasanaeth yn sylweddoli y pwysigrwydd o'r gefnogaeth i deuluoedd. Ceisio trefnu cyfathrebu gwell efo'r teuluoedd os nad ydynt yn sicr o'u gofynion.	2 cwyn o dan y categori yma
Tud: 24	11	Amgylchedd	Cynllunio	01/04/2021 – 31/03/2022	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer yn cwyno am ddiffyg ymateb gan y Gwasanaeth Gorfodaeth	Angen sicrhau fod ffeiliau yn cael eu hagor i bob achos yn amserol	Pennaeth Cynorthwyol wedi trefnu ymchwiliad ac wedi ymddiheuro yn ddiffuant i'r cwsmer am y diffyg ymateb blaenorol. Egluro fod camgymeriad wedi bod yn fewnol ond fod y mater bellach wedi ei gywiro. Egluro hefyd fod pwysau gwaith aruthrol ar y Gwasanaeth yn anffodus.	Wedi trefnu i ddarparwr arbenigol allanol i ddilyn y mater i fyny er mwyn cael rhoi sylw cywir a buan i'r mater a chynnig datrysiaid i'r cwsmer.	8 gwyn o dan y categori yma
		Amgylchedd	Llwybrau	01/04/2021 – 31/03/2022	Camgymeriad/gweithrediad anghywir ar ran y Cyngor	Cwyn gan gwsmer na chawsant wybod am ddatblygiad llwybr yn mynd dros eu tir. Doedd swyddogion y Cyngor ddim wedi ymgynghori efo nhw ar y mater	Sylweddoli pwysigrwydd ymgysylltu efo pawb lle mae achos o'r fath yn effeithio arnynt	Rheolwr y Gwasanaeth wedi cysylltu a'r cwsmer gan ymddiheuro yn ddiffuant am y diffyg ymgysylltu yn yr achos yma. Nodi y byddai'n sicrhau y byddai'r swyddog perthnasol yn cysylltu efo'r cwsmer ar ei gyfle cyntaf rôl dychwelyd o'i wyliau	Ceisio sicrhau nad oedd sefyllfa o'r fath yn codi eto drwy atgoffa'r staff perthnasol o bwysigrwydd ymgysylltu.	1 gwyn o dan y categori yma
		Amgylchedd	Trafnidiaeth	01/04/2021 – 31/03/2022	Anhapus efo Penderfyniad	Cwmni Tacsï wedi cyflwyno mater o dan drefniant caffael i'r drefn gwynion.	Cyfeiriwyd y mater i'r broses briodol a darparwyd ateb i'r cwmni.	Pennaeth wedi cysylltu yn ôl efo'r cwsmer yn egluro'r sefyllfa a gofynion y broses dendro.	Caffael a Trafnidiaeth wedi bod yn ail edrych ar y broses dendro er mwyn gwneud dogfennaeth yn fwy eglur o hyn allan.	1 cwyn o dan y categori yma
	14	Amgylchedd	Trafnidiaeth	01/04/2021 – 31/03/2022	Materion laith a Chydraddoldeb	Cwsmer yn cwyno am fod y tacsï oedd yn mynd a'i blentyn i ac o'r ysgol wedi cael ei newid ar fyr rybudd. Oherwydd y math o anghenion arbennig sydd gan y plentyn 'roedd newidiadau fel hyn yn creu problemau mawr iddynt fel teulu.	Sylweddoli pwysigrwydd cysylltu efo'r cwsmeriaid ymhob achos, gan y gall rhywbeth fyddai'n ymddangos yn fach i un person greu problem fawr i berson arall	Y Gwasanaeth wedi cysylltu a'r cwsmer ac wedi ymddiheuro am y problemau a achoswyd oherwydd y broses dendro gymerodd le. Nodi fod diffygion wedi bod yn y drefn a'u bod ar y cyd efo'r Uned Caffael yn ail edrych ar y broses efo'r bwriad o'i gwella.	Ail edrych ar y trefniadau tendro i sicrhau nad oes problemau o'r fath yn codi eto. Trafod ymestyn cyfnod tendro i dair blynedd o hyn allan.	1 cwyn o dan y categori yma
	15	Amgylchedd	Trwyddedu	01/04/2021-31/03/2022	Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor	Cwsmer wedi cwyno fod ei manylion personol wedi cael eu rhannu efo eraill gan y Gwasanaeth a thrwy hynny fod Rheolau GDPR wedi cael ei torri.	Gwasanaeth wedi cyfeirio eu hunain i'r Swyddog Diogelu Data am ymchwiliad yn syth ar ddarganfod y camgymeriad. Angen	Rheolwr y Gwasanaeth wedi anfon ymddiheuriad i bawb oedd yn rhan o hyn ar ei chyfle cyntaf wedi i'r Gwasanaeth sylweddoli fod camgymeriad wedi digwydd. Hefyd wedi egluro wrthynt fod y Gwasanaeth wedi cysylltu efo'r	Angen atgoffa pawb o'r pwysigrwydd o gydymffurfio a'r Ddeddf Diogelu Data. Peidio torri amodau y Ddeddf ayyb. Hefyd gofyn i staff nodi os oeddent wedi gwneud camgymeriad	1 cwyn o dan y categori yma




ATODIAD 1

						atgoffa staff o oblygiadau GDPR a'r angen i anfon copi cudd os yn anfon ebost at lawer ar yr un pryd.	Swyddog Diogelu Data yn wirfoddol yn gofyn iddi ymchwilio i'r sefyllfa o dorri amodau GDPR. Swyddog Diogelu Data wedi cadarnhau ei bod wedi cynnal ymchwiliad llawn ac yn bwriadu ail ymweld a'r mater eto o fewn 3 mis i sicrhau fod pethau wedi gwella.	er mwyn medru edrych ar y sefyllfa yn syth.	
16	Oedolion, lechyd a Llesiant	Oedolion	01/04/2021 – 31/03/2022	Ymddygiad Swyddog	Darparwyr Gofal yn cwyno am ymddygiad swyddog a'r diffyg cyfathrebu ymhellach efo nhw ar y materion roedd wedi eu codi.	Angen sicrhau cyfathrebu gwell efo Darparwyr Gwasanaeth.	Swyddog Gofal Cwsmer wedi ymchwilio i'r mater ac wedi cysylltu efo'r cwsmer gan ymddiheuro am unrhyw ddiffygion yn y system. A nodi eu bod wedi dysgu gwersi o'r gwyn.	Cofnodi y byddai ffonio Darparwr i drafod pethau yn well yn aml nac anfon ebost. Ymarfer da fyddai cadarnhau y sgwrs/pwyntiau perthnasol ar ebost wedyn.	1 cwyn o dan y categori yma
17	Oedolion, lechyd a Llesiant	Oedolion	01/04/2021- 31/03/2022	Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Cyngor	Cwsmer yn teimlo nad oedd y Gwasanaeth wedi rhoi digon o eglurder i'r teulu am faterion ariannol pan yn trefnu pecyn cefnogi i aelod o'r teulu.	Angen sicrhau yn y dyfodol fod trefn gadarn mewn lle i drafod materion ariannol fel hyn efo'r teulu ar y cyfle cyntaf rhag cael cwyn tebyg eto.	Swyddog Gofal Cwsmer wedi ymchwilio ac ymateb yn llawn i'r gwyn gan ymddiheuro am unrhyw ddiffyg trafodaeth ac egluro i'r cwsmer beth oedd wedi digwydd. Cwsmer wedi dod nol i ddiolch am yr ymateb ac eglurhad ac yn dweud ei fod yn fodlon efo'r ymateb ond yn gofyn i'r Gwasanaeth geisio sicrhau nad oedd hyn yn digwydd i neb eto.	Pennaeth y Gwasanaeth wedi diolch i bawb oedd yn rhan o'r ymchwiliad/ymateb. 'Roedd yn sicr yn gweld cyfle i ddysgu gwersi i arbed cwyn tebyg yn y dyfodol. Felly byddai yn gofyn i Uwch Reolwyr sicrhau bod neges glir ynglŷn a'r angen i egluro a thrafod yr elfennau ariannol yn llawn gyda unigolion a/neu teuluoedd yn cael eu rhannu gyda'r holl staff perthnasol o fewn pythefnos.	1 cwyn o dan y categori yma
18	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/03/2022	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwyn gan gwsmer am ddiffyg ymateb gan y Gwasanaeth Priffyrdd. Roedd yn aros am ateb am waith oedd wedi cael ei wneud ger ei gartref.	Sicrhau fod swyddogion yn ceisio cysylltu nol efo cwsmeriaid ar eu cyfle cyntaf yn dilyn ymchwilio i'w ymholiad/pryder/cwyn	Mater wedi ei basio i'r Gwasanaeth yn y lle cyntaf drwy Galw Gwynedd. Oherwydd y diffyg ymateb gan y Gwasanaeth ddaru'r mater droi'n gwyn. Rheolwr ardal wedi cysylltu nol efo'r cwsmer i gael datrysiaid i'r sefyllfa.	Atgoffa pawb o'r pwysigrwydd o ymateb i gwsmeriaid yn brydlon.	7 cwyn yn y categori yma
19	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/03/2022	Camgymeriad/gweithrediad anghywir gan y Gwasanaeth	Cwsmer yn cwyno ei bod dal heb dderbyn cyfarpar gwastraff ac ailgylchu er ei bod wedi gwneud cais ers peth amser	Sicrhau fod cyfarpar sydd ar gael yn cael eu dosbarthu ar y cyfle cyntaf. Sylweddoli y pwysigrwydd o adael i'r cwsmer wybod beth sydd yn digwydd bob amser	Rheolwr wedi trefnu ymchwiliad ac ymateb i'r cwsmer ac wedi ymddiheuro am nad oedd wedi derbyn y cyfarpar ynghynt. Eglurodd wrth y cwsmer fod diffyg ar ambell gyfarpar ar y pryd oherwydd y gofyn amdanynt ond nododd nad oedd hyn yn esgus na chafodd beth oedd ar gael cyn gynted ag y bo modd.	Ceisio sicrhau fod cyfarpar ar gael yn gyson, fel na ddylai cwsmeriaid orfod aros yn hir amdanynt. Sicrhau ymhellach os oes un math o gyfarpar ar archeb a ddim ar gael ar y pryd dylid dosbarthu'r gweddill ac egluro wrth y cwsmer pryd i ddisgwyl y cyfarpar sydd ar archeb.	4 cwyn yn y categori yma
20	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/03/2022	Ymddygiad swyddog	Cwsmer yn cwyno fod dwy lori ailgylchu wedi parcio ar y ffordd wrth ochrau eu gilydd, ac 'roedd yn ymddangos fod y criwiau yn cael sgwrs. Yn ôl y cwsmer roedd yn creu sefyllfa berygl i bobl eraill oedd yn ceisio trafailio ar y ffordd.	Sicrhau fod staff yn cael eu hatgoffa o bolisiau perthnasol o ran Ymddygiad ayyb	Arweinydd Tim wedi cysylltu efo'r cwsmer ac wedi ymddiheuro am y sefyllfa. Wedi egluro y rheswm bu'r i'r sefyllfa godi a hefyd wedi cadarnhau fod y staff wedi cael eu hatgoffa am ddiogelwch ar y ffordd ayyb	Ceisio sicrhau nad oes digwyddiad fel hyn yn digwydd eto. Er mae ceisio helpu eu gilydd roedd y criwiau yn dilyn newid trefn teithiau nid ddylent fod wedi stopio wrth ochrau eu gilydd ar y ffordd fawr i drafod hyn a thrwy hynny creu sefyllfa beryglus iddynt eu hunain ac i eraill.	2 cwyn yn y categori yma
21	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/03/2022	Anhapus efo Penderfyniad	Cwyn wedi ei derbyn gan gwsmer oedd yn nodi ei bod hi a'i	Ceisio addysgu preswylwyr i gymryd	Gwasanaeth Gwastraff a Gofal Stryd wedi cydweithio ar ddatrysiaid i'r sefyllfa.	Os oes problem gyffelyb yn digwydd mewn lleoliad arall, edrych yn ôl i	1 cwyn yn y categori yma

ATODIAD 1

					chymdogion wedi bod yn cwyno am finiau yn cael eu gadael allan ar y palmentydd o un wythnos i'r llall gan breswylwyr. Roedd hyn yn denu gwylanod ayyb i'r stryd. Mater wedi bod yn rhygnu ymlaen ers dros 2 flynedd.	cyfrifoldeb i ailgylchu mwy a chadw eu cyfarpar yn dilyn casgliadau. Cofio diweddarau cwsmeriaid o ddatblygiadau	Wedi llythyru'r preswylwyr gan roi rhybudd oni fyddai'r biniau yn cael eu cadw ganddynt yna byddai'r Cyngor yn mynd a nhw o'r stryd ar ddyddiad penodol. Hyn wedi ei ddilyn i fyny.	weld beth weithiodd yn dda a chymryd yr un camau pe byddai angen. Cofio cadw mewn cysylltiad efo'r cwsmeriaid.		
22	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	PAB	01/04/2021 – 31/03/2022	Materion laith a Chydraddoldeb	Cafwyd cwyn gan gwsmer am nad oedd adnoddau addas ar gael mewn toiledau dynion i newid babi. Roedd hyn yn torri rheolau Cydraddoldeb.	Ceisio sicrhau fod y Gwasanaeth yn cydymffurfio a rheolau cydraddoldeb o hyn allan drwy ddarparu adnoddau lle mae'n bosib. Sylweddoli y pwysigrwydd o fynd yn ôl at gwsmeriaid i roi diweddariad iddynt am y sefyllfa	Gwasanaeth wedi cynnig ymddiheuriad i'r cwsmer am y diffyg adnoddau ac egluro fod Strategaeth ar y gweill i gynnwys adnoddau mewn mwy o doiledau yn y dyfodol. Eglurwyd hefyd yn anffodus nad oedd pob adeilad yn addas i osod cyfarpar o'r fath oherwydd y math o adeilad, oedran yr adeilad ayyb. Eglurwyd fod rhai toiledau erbyn hyn o dan ofal Cyngorau Cymuned.	Sicrhau fod swyddogion yn sylweddoli y pwysigrwydd o ddilyn materion i fyny a diweddarau cwsmer yn rheolaidd ar unrhyw ddatblygiadau.	2 cwyn yn y categori yma	
Tud. 26	23	Cefnogaeth Gorfforaethol	Cyswllt Cwsmer	01/04/2021 - 31/03/2022	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer yn cwyno am sut y bu iddi gael ei thrin ar y ffon gan aelod o staff y Gwasanaeth. Cafodd ei phasio o un swyddog i'r llall.	Fod angen atgoffa yr holl staff o'u hymddygiad ar y ffon efo cwsmeriaid. Hefyd eu hatgoffa beth i wneud mewn amgylchiadau o'r fath rhag ofn i sefyllfa debyg godi eto.	Rheolwr wedi cysylltu efo'r cwsmer ar y ffon yn y lle cyntaf ac wedi ymddiheuro am y sefyllfa. Wedi egluro i'r cwsmer mai system hunan wasanaeth sydd mewn lle i wneud y math o daliad roedd yn sôn amdano ar y diwrnod. Dim ond mewn argyfwng mae'n Gwasanaeth yn derbyn taliadau fel hyn. Nid oedd y Gwasanaeth wedi cael rhybudd fod problemau efo'r system gan Wasanaeth arall ac felly nid oedd y neges wedi ei rannu efo'r staff i nodi efallai y gellid cael ymholiadau ar y mater.	Arweinydd Tim i gysylltu efo'r Gwasanaeth perthnasol i geisio cael cyfathrebu gwell rhag i'r un peth ddigwydd eto rhywdro. Pe byddai'r Gwasanaeth wedi cael gwybod am y problemau yna mi fyddent wedi bod yn fwy barod am y sefyllfa. Sicrhau fod staff i gyd yn cael eu hyfforddi ar beth i'w wneud efo'r system mewn sefyllfa o'r fath.	1 cwyn yn y categori yma
	24	Cyfreithiol	Cyfreithiol	01/04/2021- 31/03/2022	Diffyg ymateb/gweithredu	Cwsmer yn cwyno am ddiffyg ymateb gan y Gwasanaeth i bedwar gohebiaeth roedd wedi ei hanfon atynt	Atgoffa pawb o'r staff am y pwysigrwydd o fynd nol at gwsmer efo diweddariad rheolaidd os nad oeddent yn gallu ymateb yn llawn	Yn dilyn derbyn 4 nodyn atgoffa gan yr SGG fe ddaru'r Pennaeth Gwasanaeth gadarnhau fod ymateb wedi mynd allan i'r cwsmer.	Ceisio sicrhau cyfathrebu gwell o fewn y Gwasanaeth efo'r cwsmeriaid. Eu hatgoffa o'r Polisi Ateb Gohebiaeth a hefyd y Polisi Ymateb i Bryderon a Chwynion.	1 cwyn o dan y categori yma

Gofynnwch Cyfathrebu  
am:

 01656 641150

Dyddiad: Awst 2022

 cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Cyngh. Dyfrig L. Siencyn  
Cyngor Gwynedd  
Trwy Ebost yn unig: cynghorydd.dyfrigsiencyn@gwynedd.llyw.cymru

## Llythyrau Blynyddol 2021/22

Annwyl Cynghorydd Siencyn

Mae'n falch gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2021/22) i chi ar gyfer Cyngor Gwynedd sy'n ymdrin â chwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaeth, cwynion yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Dyma fy llythyr blynyddol cyntaf ers ymgymryd â rôl yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2022, ac rwy'n gwerthfawrogi bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn dal i deimlo effeithiau'r pandemig. Ni fu ein swyddfa yn rhydd rhag hyn, gyda mwy o achosion nag erioed yn cael eu cyfeirio atom dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r berthynas waith gref rhwng fy Swyddfa ag Awdurdodau Lleol yn parhau i ddarparu gwelliannau yn y ffordd rydym yn ymdrin â chwynion ac yn sicrhau, pan aiff pethau o chwith, ein bod yn dysgu o hynny ac yn adeiladu gwasanaethau cyhoeddus cryfach.

### Cwynion yn ymwneud â Chamweinyddu a Methiant Gwasanaeth

Y llynedd, cynyddodd nifer y cwynion a gyfeiriwyd atom yn ymwneud ag awdurdodau lleol o 47% (o gymharu â ffigyrau 20/21) ac rydym bellach yn derbyn llawer mwy o gwynion o gymharu â chyn y pandemig. Mae'n debygol y cafodd cwynion i'm swyddfa, a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, eu celu yn ystod y pandemig, ac rydym bellach yn dechrau gweld yr effaith 'adlam' ddisgwyliedig.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn y cam cynnar) cyfran debyg o gwynion am gyrff cyhoeddus, sef 18%, o gymharu â blynyddoedd diweddar. Arhosodd cyfraddau ymyrryd (lle rydym wedi ymchwilio i gwynion) ar gyfer Awdurdodau Lleol ar lefel debyg hefyd – 14% o gymharu â 13% yn y blynyddoedd diwethaf.

Tudalen 1 o 9

## Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr

Cawsom hefyd nifer uchel o gwynion y Cod Ymddygiad y llynedd, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Cyfeiriwyd y nifer uchaf erioed (20) at naill ai at Banel Dyfarnu Cymru neu bwyllgorau safonau lleol, oherwydd tystiolaeth o dorri'r Cod.

## Cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus

Yn ogystal â rheoli'r lefelau uchaf erioed o gwynion, gwnaethom hefyd barhau â'n gwaith gan ddefnyddio ein pwerau rhagweithiol yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Yn benodol, cynnal ein Hymchwiliad ar ein Liwt ein Hunain cyntaf a pharhau â'n gwaith ar yr Awdurdod Safonau Cwynion.

Ym mis Hydref 2021, gwelsom gyhoeddiad yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun cyntaf yng Nghymru: [Adolygiad Digartrefedd](#). Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys tri Awdurdod Lleol ac yn ceisio craffu ar y ffordd y cafodd asesiadau Digartrefedd eu cynnal. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion penodol i'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt, ynghyd ag awgrymiadau i bob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Bydd rhai o'r argymhellion hyn yn cyflwyno newidiadau yn syth - er enghraifft, diweddarau taflenni ffeithiau a thempledi llythyr ac asesiad i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol allweddol yn cael eu gwreiddio'n rheolaidd i brosesau - cynlluniwyd pob argymhelliad i sicrhau newid gwirioneddol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru.

Parhaodd yr Awdurdod Safonau Cwynion ei waith â chyrrff cyhoeddus yng Nghymru'r llynedd. Mae'r polisi cwynion enghreifftiol eisoes wedi'i fabwysiadu gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru ac rydym bellach wedi ymestyn hyn i gyfran gyntaf o Gymdeithasau tai a Chyfoeth Naturiol Cymru. Y nod yw gweithredu'r gwaith hwn ledled sector cyhoeddus Cymru.

Yn ogystal â hyn, [am y tro cyntaf](#), cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Cwynion wybodaeth am gwynion y mae awdurdodau lleol wedi ymdrin â nhw – cyflawniad allweddol ar gyfer y gwaith hwn. Dengys data ar gyfer 21/22:

- Cofnodwyd dros 15,000 o gwynion gan Awdurdodau Lleol
- 4.88 am bob 1000 o breswylwyr.
- Cadarnhawyd bron i hanner (46%) y cwynion hynny.
- Ymchwiliwyd i oddeutu 75% ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.
- Yn y pen draw, cyfeiriwyd oddeutu 8% o'r holl gwynion a gaewyd at OGCC.

Mae'r Awdurdod Safonau Cwynion bellach wedi gweithredu polisi cwynion enghreifftiol gyda bron i 50 o gyrff cyhoeddus, ac wedi darparu 140 o sesiynau hyfforddi, yn rhad ac am ddim, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Bu'r adborth yn ardderchog, ac mae'r hyfforddiant wedi bod yn boblogaidd iawn – felly byddwn yn annog Cyngor Gwynedd i ymgysylltu cymaint â phosibl.

## Cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon

Mae crynodeb o'r cwynion yn ymwneud â chamweinyddu/methiant gwasanaeth a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'ch Cyngor wedi'i atodi, ynghyd â chrynodeb o'r cwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud ag aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned eich ardal.

Yn sgil y dyletswyddau newydd ar arweinwyr gwleidyddol a phwyllgorau safonau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad eu haelodau, edrychwn ymlaen at weithio gyda chi, eich Swyddog Monitro a phwyllgorau safonau i rannu unrhyw ddysgu o'r cwynion a gawn ac i gefnogi gwaith eich awdurdod.

Byddwn hefyd yn croesawu adborth ar adolygiad eich Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran gallu eich awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol fel y gallwn gymryd hyn i ystyriaeth yn ein gwaith a chefnogi ei waith ar ymdrin â chwynion.


Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am y ffordd gadarnhaol y mae Awdurdodau Lleol wedi ymgysylltu â'm Swyddfa i'n galluogi i gyflawni'r cyflawniadau hyn yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb. Edrychaf ymlaen yn fawr at barhau â'r gwaith a'r cydweithio hwn i sicrhau ein bod yn gwella gwasanaethau cyhoeddus ymhellach ledled Cymru.

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynorthwyo aelodau yn eu gwaith craffu ar berfformiad y Cyngor a rhannu unrhyw adborth gan y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda fy swyddfa.
- Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion.
- Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 30 Medi.

Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei chopïo i Brif Weithredwr eich Cyngor a'ch Swyddog Cyswllt. Yn olaf, bydd copi o'r holl Lythyrau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir,



**Michelle Morris**  
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

cc.Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd.  
Trwy Ebst yn unig: dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru

## Taflen Ffeithiau

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

Awdurdod Lleol	Cwynion a Gafwyd	Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	14	0.20
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	55	0.37
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	60	0.33
Cyngor Caerdydd*	182	0.50
Cyngor Sir Caerfyrddin	54	0.29
Cyngor Sir Ceredigion	52	0.72
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	27	0.23
Cyngor Sir Ddinbych	34	0.36
Cyngor Sir y Fflint	99	0.63
Cyngor Gwynedd	39	0.31
Cyngor Sir Ynys Môn	29	0.41
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	27	0.45
Cyngor Sir Fynwy	20	0.21
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	45	0.31
Cyngor Dinas Casnewydd	40	0.26
Cyngor Sir Penfro	39	0.31
Cyngor Sir Powys	55	0.42
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	51	0.21
Cyngor Abertawe	71	0.29
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	18	0.19
Cyngor Bro Morgannwg	61	0.46
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	71	0.52
<b>Cyfanswm</b>	<b>1143</b>	<b>0.36</b>

\* gan gynnwys 17 Rhentu Doeth Cymru

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

Cyngor Gwynedd	Cwynion a Gafwyd	% rhannu
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	1	3%
Gweinyddu Budd-daliadau	0	0%
Gwasanaethau Cymdeithasol Plant	0	0%
Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden	1	3%
Ymdrin â Chwynion	7	18%
Covid19	6	15%
Addysg	2	5%
Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd	1	3%
Cyllid a Threthiant	9	23%
Tai	5	13%
Trwyddedu	0	0%
Cynllunio a Rheoli Adeiladu	7	18%
Ffyrdd a Thrafnidiaeth	0	0%
Amrywiol Eraill	0	0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>39</b>	

Tud. 31

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion  
 (\* yn dynodi ymyrraeth)

	Tu hwnt i Awdurdodaeth	Cynamserol	Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol	Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol*	Wedi rhoi'r gorau iddi	Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd	Adroddiadau eraill a gadarnhawyd*	Adroddiadau er Budd y Cyhoedd*	Cyfanswm
Cyngor Gwynedd	10	8	17	5	0	0	1	0	41
% Share	24%	20%	41%	12%	0%	0%	2%	0%	



## Atodiad D - Achosion lle ymyrodd OGCC

	Nifer yr ymyriadau	Nifer y cwynion a gaewyd	% o ymyriadau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	0	13	0%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	7	54	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	7	58	12%
Cyngor Caerdydd	45	159	28%
Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru	1	16	6%
Cyngor Sir Caerfyrddin	7	49	14%
Cyngor Sir Ceredigion	13	46	28%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	2	24	8%
Cyngor Sir Ddinbych	4	33	12%
Cyngor Sir y Fflint	15	94	16%
Cyngor Gwynedd	6	41	15%
Cyngor Sir Ynys Môn	3	28	11%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	2	26	8%
Cyngor Sir Fynwy	2	21	10%
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	5	45	11%
Cyngor Dinas Casnewydd	4	36	11%
Cyngor Sir Penfro	2	40	5%
Cyngor Sir Powys	7	55	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	3	45	7%
Cyngor Abertawe	10	76	13%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	2	20	10%
Cyngor Bro Morgannwg	9	62	15%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	4	67	6%
<b>Cyfanswm</b>	<b>160</b>	<b>1108</b>	<b>14%</b>

## Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

	Wedi rhoi'r gorau iddi	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	Dim angen gweithredu	Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu	Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Cyngor Gwynedd	1	2	1	1	0	0	5

## Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

	Wedi rhoi'r gorau iddi	Dim tystiolaeth o dorri'r cod	Dim angen gweithredu	Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu	Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau	Tynnwyd yn ôl	Cyfanswm
Cyngor Dinas Bangor	2	0	0	0	0	0	2
Cyngor Caernarfon (Tref Frenhinol)	0	0	0	1	0	0	1
Cyngor Cymuned Llanbedrog	-	-	-	-	-	-	0
Cyngor Tref Penrhynedeudraeth	1	2	0	0	0	0	3
Cyngor Tref Porthmadog	-	-	-	-	-	-	0
Cyngor Tref Tywyn	0	1	0	0	0	0	1

## Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun yn seiliedig ar nifer y bobl y mae pob bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu yn ôl pob sôn.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

# Eitem 7

## CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y cyfarfod:	25 Hydref 2022
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Ioan Thomas
Swyddog Cyswllt:	Bleddyn Jones, Rheolwr Trethi Catrin Thomas, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 682684
Teitl yr Eitem:	Cynllun Cymorth Costau Byw Dewisol

---

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Mabwysiadu'r Cynllun Cymorth Costau Byw Dewisol sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

### RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD

#### Cefndir

- Fel rhan o Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar 15 Chwefror 2022, cyhoeddwyd y byddai cynllun yn cael ei sefydlu i gynorthwyo aelwydydd gyda chostau byw drwy roi taliad o £150 i aelwydydd penodol. Er mai cynllun y Llywodraeth oedd hwn, roedd disgwyl i awdurdodau lleol ei weinyddu gan fod cymhwysra yn seiliedig ar statws Treth Cyngor yr eiddo.
- Er mwyn bod yn gymwys am daliad dan y cynllun roedd rhaid i aelwyd fodloni un o'r amodau canlynol, fel a osodwyd gan Lywodraeth Cymru:

#### **A. Amod Hawlio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

*Os oedd trigolyn yn cael cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 15 Chwefror 2022, asesir bod ganddynt hawl i gael taliad o £150 yn awtomatig waeth beth fo'r band prisio y mae eu heiddo ynddo.*

#### **B. Amod Bandiau'r Dreth Gyngor**

*Asesir bod gan aelwydydd sy'n meddiannu eiddo ym mandiau A i D y dreth gyngor hawl i gael taliad o £150 ar yr amod eu bod yn bodloni pob un o'r meini prawf canlynol:*

- yn atebol i dalu'r dreth gyngor ar eiddo ar 15 Chwefror 2022*
- ddim wedi cael eithriad ar gyfer yr eiddo hwnnw ar 15 Chwefror 2022*

- yn byw yn yr eiddo hwnnw fel eu prif breswylfa ar 15 Chwefror 2022
  - Yn gyfrifol am dalu'r biliau cyfleustodau cysylltiedig a biliau eraill yr eir iddynt yn rheolaidd ar gyfer yr eiddo hwnnw ar 15 Chwefror 2022.
3. Mae Gwasanaeth Trethi'r Cyngor wedi gweinyddu'r taliadau hyn trwy eu dosbarthu unai fel taliad uniongyrchol i gyfrifon banc os oedd yr wybodaeth hwnnw eisoes gennym (h.y. fod y Dreth Cyngor yn cael ei dalu trwy ddebyd uniongyrchol) neu, lle nad oedd yr wybodaeth cyfrif banc gennym, anfonwyd llythyr pwrpasol yn cynnwys côd unigryw i'r aelwydydd er mwyn i'r preswlydd allu mynd i Swyddfa'r Post i dderbyn eu harian.
  4. Trwy gyfuniad o daliadau uniongyrchol i'r banc a thaliadau yn y swyddfeydd post, erbyn 30 Mehefin roedd y Gwasanaeth Trethi wedi cynorthwyo i ddsbarthu £150 yr un i 39,486 o aelwyd cymwys o fewn Gwynedd. Roedd hyn oddeutu 99% o aelwydydd cymwys, ac mae gwaith wedi parhau i adnabod a chyfathrebu gyda'r 1% sy'n weddill.
  5. Ar wahân i'r uchod, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cronfa ddewisol o £25m i awdurdodau lleol. Bydd hyn yn caniatáu i gynghorau helpu pobl y maent yn ystyried bod angen cymorth arnynt, gan ddarparu cymorth dewisol fel y tybir sy'n briodol i fynd i'r afael ag anghenion lleol.

#### **RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS GYRRAEDD Y PENDERFYNIAD**

6. Ceisir penderfyniad i weithredu Cynllun Cymorth Byw Dewisol Cyngor Gwynedd sy'n gyfuniad o'r canlynol:
  - Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor
  - Ariannu Rhwydwaith Hybiau Cefnogi Pobl a Banciau Bwyd
7. Mae'r Rhwydwaith o Hybiau Cefnogi Pobl a Banciau Bwyd Gwynedd wedi gweld cynnydd mewn galw ers mis Mawrth 2022; gyda mwy o bobl yn eu defnyddio ar gyfer cael mynediad at dalebau tanwydd argyfwng, nwyddau hanfodol i'r cartref a darpariaeth fwyd neu fwydo. Mae niferoedd sy'n defnyddio'r Banciau Bwyd wedi cynyddu ac maent i gyd wedi adrodd heriau cael stoc digonol i gyfarch y cynnydd. Mae nifer y cyfeiriadau at y Banciau Bwyd ac at Wasanaeth Cyngor ar Bopeth yn parhau i gynyddu. Rydym yn awyddus i ddefnyddio rhwydweithiau lleol sydd oddi fewn i'n cymunedau ar gyfer sicrhau fod pobl yn cael mynediad rhwydd i wasanaethau, cyngor ac i dalebau a darpariaeth fwyd. Mae gwerthusiad Prifysgol Glyndwr o effaith y rhwydwaith o hybiau yn 2022 wedi dangos fod pobl yn fwy parod i geisio help, a'i dderbyn, os yw ar gael mewn lleoliad anffurfiol, cymunedol a lleol iddynt.

### Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

8. Mae angen i bob awdurdod lleol benderfynu sut y bydd yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael. Wrth ddatblygu cynllun lleol Gwynedd, egwyddor sylfaenol oedd ymestyn y cynllun i roi cymorth i'r trigolion hynny a fyddai wedi bod yn deilwng i dderbyn £150 dan prif gynllun gwreiddiol, ond fod y cyfrif Treth Cyngor wedi ei eithrio oherwydd amgylchiadau personol yr unigolyn, ond sydd dal i wynebu heriau difrifol wrth dalu am fwyd, gwresogi ayb. Felly, mae Cynllun Dewisol arfaethedig Cyngor Gwynedd yn ymestyn y cymorth hynny i aelwydydd sy'n derbyn eithriadau a disgowntau sy'n ymwneud â bregusrwydd unigolyn / teulu neu sefyllfa ariannol lle mae amgylchiadau'r cartref yn cyfyngu incwm y trethdalwr. Yr eithriadau hyn yw:

- Eithriad Dosbarth N– eiddo wedi feddiannu gan fyfyrwyr llawn amser
- Eithriad Dosbarth S – Eiddo wedi feddiannu gan bobol dan 18
- Eithriad Dosbarth U – Eiddo wedi feddiannu gan breswylwyr sydd wedi eu adnabod fel bod â “Nam Meddyliol Difrifol”
- Eithriad Dosbarth W – Anecs wedi feddiannu gan berthnasau dibynnol dan amodau
- Eithriad Dosbarth X – Unigolion dan 25 sydd mewn ôl ofal
- Eiddo Band F-I sydd yn deilwng i ostyngiad Band oherwydd anabledd
- Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd “Nam Meddyliol Difrifol”
- Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd cyfrifoldeb gofal
- Eiddo Band E-I ble mae'r ail berson yn 18-19 mlwydd oed mewn addysg
- Eiddo Band E-I sydd yn deilwng i Ddisgownt Preswlydd Sengl

9. **Mae manylion pellach am y Cynllun Dewisol i wneud taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor i'w cael yn Atodiad 1.**

10. Amcangyfrifir y bydd costau'r elfen yma o'r Cynllun Dewisol fel a ganlyn:

Eithriad / Disgownt / Diystyru	Nifer	Swm
Dosbarth N eiddo – eiddo wedi feddiannu gan fyfyrwyr llawn amser	1,061	£159,150.00
Dosbarth S - Eiddo wedi feddiannu gan bobol dan 18	12	£1,800.00
Dosbarth U - Eiddo wedi feddiannu preswylwyr wedi adnabod fel NMD	272	£40,800.00
Dosbarth W - Anecs wedi feddiannu gan berthnasau dibynnol dan amodau	18	£2,700.00
Dosbarth X - Unigolion dan 25 sydd mewn ôl ofal	25	£3,750.00

Eiddo Band F-I sydd yn deilwng i ostyngiad Band oherwydd anabled	33	£4,950.00
Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd "Nam Meddyliol Difrifol"	62	£9,300.00
Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd cyfrifoldeb gofal	74	£11,100.00
Eiddo Band E-I fod yr ail berson yn 18-19 mlwydd oed mewn addysg	32	£4,800.00
Eiddo Band E-I sydd yn deilwng i Ddisgownt Preswlydd Sengl	2,654	£398,100.00
<b>Amcan o'r cyfanswm yn seiliedig ar ddata Treth Cyngor</b>		<b>£636,450.00</b>

#### Rhwydwaith Hybiau Cefnogi Pobl

11. Yn ogystal â'r taliadau o £150 i unigolion, mae amodau'r Cynllun Dewisol yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio cyfran o'r arian i gyllido cyrff allanol sy'n cynorthwyo unigolion sy'n profi heriau enbyd yn sgil yr argyfwng costau byw. Yn unol â hynny, felly, bwriedir trosglwyddo £300,000 o'r cynllun i'w ddefnyddio gan y Rhwydwaith Hybiau Cefnogi Pobl sydd wedi eu lleoli ar draws Gwynedd. Bydd hyn ar gyfer darparu cymorth bwyd a nwyddau tŷ, cyngor a chymorth ar gyllid personol a taliadau argyfwng bychain 'un tro'.
12. Mae'n orfodol fod yr arian yma yn cael ei wario / rannu allan o fewn y flwyddyn ariannol bresennol.
13. Bydd rhaid i'r grwpiau a areinnir drwy'r Rhwydwaith Hybiau Cefnogi Pobl gyfrifo am y gwariant yn unol â'u prosesau monitro arferol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Cynllun Dewisol er mwyn rhoi cymorth ariannol i'r aelwydydd hynny oedd wedi eu heithrio o'r cynllun gwreiddiol, ond hefyd er mwyn rhoi cymorth i aelwydydd mwyaf bregus Cymru ar sail eu nodweddion.
14. Mae'r Adran Cyllid wedi trafod y defnydd mwyaf effeithiol o'r arian hwn gyda cydweithwyr yn Uned Gwrth-dlodi o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Theuluoedd.
15. **Mae manylion pellach am y Cynllun Dewisol i'w cael yn Atodiad 1.**

## **ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

16. Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gynnwys yn Atodiad 2. Canlyniad yr Asesiad yw y bydd effaith cyffredinol bositif o weithredu'r cynllun ond ni chredir y bydd yr effaith bositif yn sylweddol oherwydd y symiau ariannol sydd dan sylw. Nid yw'r gefnogaeth ariannol (taliadau unigol o £150) a ddarperir yn cyfarch y bwlch mae aelwydydd yn eu wynebu yn sgil y cynnydd mewn costau.
  17. Nid yw'r asesiad effaith wedi adnabod unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grwpiau gwarchoddedig neu garfannau o'r boblogaeth, felly ni fydd angen cymryd camau i leihau neu liniaru sefyllfa o'r fath.
- 

## **BARN SWYDDOGION STATUDOL**

### Swyddog Monitro

Mae yn briodol fod y Cabinet yn ystyried y ffordd briodol ddyfarnu y taliadau penodol yma. Nodir fod Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi a dylid dal sylw at ei ganfyddiadau I ddod I benderfyniad.

### Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys

Aelod/au Lleol - Dim yn berthnasol



## **Cronfa Ddewisol Cynllun Cymorth Costau Byw (COLSS) Cyngor Gwynedd**

Fel rhan o Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar 15 Chwefror 2022, cyhoeddwyd y byddai cynllun yn cael ei sefydlu i gynorthwyo aelwydydd gyda chostau byw drwy roi taliad o £150 i aelwydydd penodol. Er mai cynllun y Llywodraeth oedd hwn, roedd disgwyl i awdurdodau lleol ei weinyddu gan fod cymhwysra yn seiliedig ar statws Treth Cyngor yr eiddo.

Er mwyn bod yn gymwys am daliad dan y cynllun roedd rhaid i aelwyd fodloni un o'r amodau canlynol, fel a osodwyd gan Lywodraeth Cymru:

**Amod Hawlio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.** Os oedd trigolyn yn cael cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 15 Chwefror 2022, asesir bod ganddynt hawl i gael taliad o £150 yn awtomatig waeth beth fo'r band prasio y mae eu heiddo ynddo.

**Amod Bandiau'r Dreth Gyngor.** Asesir bod gan aelwydydd sy'n meddiannu eiddo ym mandiau A i D y dreth gyngor hawl i gael taliad o £150 ar yr amod eu bod yn bodloni pob un o'r meini prawf canlynol:

- yn atebol i dalu'r dreth gyngor ar eiddo ar 15 Chwefror 2022
- ddim wedi cael eithriad ar gyfer yr eiddo hwnnw ar 15 Chwefror 2022
- yn byw yn yr eiddo hwnnw fel eu prif breswylfa ar 15 Chwefror 2022
- yn gyfrifol am dalu'r biliau cyfleustodau cysylltiedig a biliau eraill yr eir iddynt yn rheolaidd ar gyfer yr eiddo hwnnw ar 15 Chwefror 2022.

### **Cynllun Dewisol**

Yn ogystal â chefnogi'r categorïau cymwys a amlinellwyd uchod drwy'r prif gynllun, caiff pob awdurdod lleol ddefnyddio'r cyllid a ddarperir o dan y Cynllun Disgresiynol i gefnogi aelwydydd y mae angen cymorth arnynt gyda'u costau byw, ym marn yr awdurdod lleol. Gall y cymorth hwn fod ar ffurf taliad i aelwyd nad yw wedi'i chwmpasu eisoes gan y prif gynllun, neu gall dalu costau gwasanaethau hanfodol a ddarperir i'r aelwyd, er enghraifft ymestyn darpariaeth prydu ysgol am ddim neu brydu bwyd ar glud.

Bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu sut y bydd yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael.

**Mae Cynllun Dewisol Cymorth Costau Byw Cyngor Gwynedd yn dilyn ar y tudalennau nesaf, ac wedi ei rannu i ddwy elfen:**

- **Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Gyngor.**
- **Ariannu Rhwydwaith Hybiau Cefnogi Pobl a Banciau Bwyd**

## TALIADAU O £150 YN SEILIEDIG AR DRETH CYNGOR.

### Dyddiad perthnasol 15/02/2022

Bydd cymhwystra ar gyfer taliadau fel a ganlyn:

Taliad o £150 i'w wneud yn seiliedig ar ddata Treth Cyngor i breswylwyr yn yr eiddo canlynol. Yn y rhan fwyaf o gategoriâu byddai'r trethdalwr wedi bod yn deilwng i dderbyn £150 dan y prif gynllun os na fyddai'r cyfrif Treth Cyngor wedi ei eithrio oherwydd amgylchiadau personol yr unigolyn:

Eithriad Dosbarth N– Eiddo wedi feddiannu'n llwyr gan fyfyrwyr llawn amser

Eithriad Dosbarth S – Eiddo wedi feddiannu gan bobol dan 18

Eithriad Dosbarth U – Eiddo wedi feddiannu gan breswylwyr sydd wedi eu adnabod fel bod â “Nam Meddyliol Difrifol”\*

Eithriad Dosbarth W – Anecs wedi feddiannu gan berthnasau dibynnol dan amodau

Eithriad Dosbarth X – Unigolion dan 25 sydd mewn ôl ofal

Eiddo Band F-I sydd yn deilwng i ostyngiad band oherwydd anabledd

Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd “Nam Meddyliol Difrifol”\*

Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd cyfrifoldeb gofal

Eiddo Band E-I ble mae nad yw'r ail berson ac cael eu hystyried at bwrpasu treth gan eu bod yn 18-19 mlwydd oed mewn Addysg Bellach

Eiddo Band E-I sydd yn deilwng i Ddisgownt Preswlydd Sengl

**Mae'r eithriadau a lleihad restrir yma yn ymwneud â bregusrwydd unigolyn / teulu, neu sefyllfa ariannol lle fod incwm y trethdalwr yn gyfyngedig.**

\* fel diffinnir gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

Ble fod manylion banc cyfredol, byw ar y cyfrif Treth Cyngor ar gael fe wneir taliad banc yn uniongyrchol i'r cyfrif yma.

Os na oes manylion banc, byw, yna fe yrrir llythyr yn cynnig i'r sawl sydd yn deilwng gasglu'r taliad o'r Swyddfa Bost (am gyfnod o 28 niwrnod)

Os na fydd unigolyn teilwng yn hawlio'r arian fe yrrir ail lythyr yn holi os yw'r person am dderbyn ail lythyr Swyddfa Bost neu i ddarparu manylion banc.

Os na fydd ymateb yna fe allwn roddi'r yr arian yn erbyn y cyfrif Treth Cyngor, ble gall yr unigolyn hawlio'r £150 fel ad-daliad (hyd at 31 Mawrth 2023).

Bydd unrhyw gyllid sydd yn weddill o'r gwariant uchod na ellir ei osod yn erbyn cyfrif Treth Cyngor yn cael ei rannu rhwng yr Hybiau Banciau Bwyd mewn ail daliad.

## RHWYDWAITH HYBIAU CEFNOGI POBL A BANCIAU BWYD

Nodir isod yr hyn fydd yn cael ei wneud gyda £300k o'r elfen Hybiau Cefnogi Pobl a Banciau Bwyd o'r Gronfa Ddewisol Costau Byw yn unol â'r diffiniad o "Ddefnydd ehangach o gyllid disgresiynol" yn y canllawiau.

Bydd y gweithgareddau isod i gyd wedi eu cyflawni cyn diwedd Mawrth 2023.

### 1. Cyfraniad tuag at wella capasiti cefnogaeth a chymorth a cefnogi mynediad i gefnogaeth a chymorth.

Mae gennym 11 hwb cefnogi pobl mewn cymunedau ar hyn o bryd mewn partneriaeth gyda Grwpiau Cymunedol a Mudiadau Trydydd Sector. Mae'r Hybiau yn dod a partneriaid a rhai o wasanaethau cymorth y Cyngor at ei gilydd i un lle ar gyfer gallu rhoi help i bobl gyda'r pethau canlynol :

- Cyngor ariannol a dyled (CAB, Cymdeithasu Tai, Uned Budd-daliadau'r Cyngor)
- Cyngor ar danwydd a chostau'r cartref (Warm Wales, Adran Tai, Groundworks, Cymdeithasau Tai)
- Mynediad i dalebau bwyd a pecynnau bwyd argyfwng (Pantrioedd Cymunedol, Oergell Cymunedol, Clybiau Bwyd)
- Mynediad i dalebau ynni argyfwng
- Mynediad i ddillad
- Mynediad i nwyddau cartref a hylendid argyfwng
- Cynlluniau cyfeillio, cadw mewn cyswllt a cysylltu pobl gyda'i gilydd i drigolion bregus.
- Mynediad i gludiant gymunedol ar gyfer apwyntiadau, cyrraedd gwasanaethau hanfodol megis meddyg ac ysbyty, siopa a gwasanaethau statudol mewn trefi.
- Cefnogaeth i rai sydd fwyaf mewn peryg o dlodi ee gofalwyr di-dal, pobl gydag anableddau.
- Cefnogaeth iechyd meddwl i ddelio gyda straen, gôr bryder, iselder yn bennaf (gwasanaethau Cymdeithasol, Canolfannau I-can, canolfannau Iechyd Meddwl, Clystyrau Meddygon Teulu)
- Cefnogaeth ymarferol ar lawr gwlad i helpu pobl ymgeisio am wasanaeth, cynlluniau, grantiau ar eu rhan (gweithwyr lles) o amrywiol asiantaethau yn staffio'r hybiau.

Mae'r hybiau yn cefnogi pobl mewn dalgylchoedd penodol; ac yn agored i unrhyw berson.

Lleolir yr hybiau presennol yn –

Caernarfon  
Maesgeirchen  
Penygroes  
Pwllheli ( a Nefyn)  
Llanaelhaearn ( Trefor a Llithfaen)  
Botwnnog  
Blaenau Ffestiniog (Penrhyndeudraeth a Trawsfynydd)  
Bala  
Bethesda  
Abermaw  
Tywyn

Bydd y cyfraniad yn mynd tuag at sefydlu lloerenni lleol i'r hybiau uchod, ymestyn oriau, ymestyn capasiti staffio, ymestyn y ddarpariaeth o dalebau argyfwng (bwyd, tanwydd neu nwyddau i ddisgresiwn yr hwb); darpariaeth cyngor ariannol a darpariaeth bwydo.

## **2. Cynllun “Croeso Cynnes”**

Mae'r cynllun yn ymgais i ddarparu gofod cynnes a saff i drigolion dros fisoedd y gaeaf. Mae'r gofod yn fwriadol ar gyfer bod yn rhywle i bobl fynd iddo i gadw yn gynnes oherwydd risgiau methu a cynhesu'r cartref.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd, Gwasanaeth Ieuenctid a'r Cymdeithasau Tai wedi arwyddo i'r cynllun. Bydd cyfraniad o'r gronfa yn mynd tuag at ddarparu'r gofod, panad a hyrwyddo'r lleoliadau i drigolion.

Byddwn yn targedu 3 grŵp yn benodol – poblogaeth gyfan (llyfrgelloedd); pobl dros 55 (gofod cymunedol llety a chefnogaeth); pobl ifanc 16-25 (gwasanaeth ieuenctid).

## **3. Cynlluniau Bwyd a Bwydo**

Byddwn yn rhoi cyfraniad ariannol i'r 5 Banc Bwyd sirol er mwyn cynnal y cyflenwad bwyd, ac hefyd er mwyn sicrhau nad oes banc bwyd yn troi aelwyd sydd angen help i ffwrdd oherwydd diffyg cyflenwad.

Byddwn hefyd yn ychwanegu at y Grant Bwyd i roi cyfraniad ariannol i'r Grwpiau Bwydo / Clybiau Swper / Clybiau Cinio / Cynlluniau Pryd ar Glud amrywiol sydd drwy'r sir.

## **4. Cronfa a Cymorth Charis Grant (tlodi tanwydd)**

Ymestyn capasiti i roi cyngor ar dlodi tanwydd, talebau tanwydd, a mynediad at dalebau tanwydd argyfwng gan ddarparwyr ynni unigol ac elusennau allanol.

## **5. Rhaglen Gwrth Dlodi Gwynedd**

Cyfraniad tuag at gostau cyflogi Cydlynnydd a Swyddog Tlodi.

Cyfraniad tuag at weithgareddau hyrwyddo a marchnata ar draws partneriaid i godi ymwybyddiaeth pobl o wasanaeth cymorth costau byw presennol.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## I) Manylion

### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Cymorth Dewisol ar gyfer Costau Byw.

### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn o fesurau i helpu pobl gyda'r argyfwng costau byw. Mae'r pecyn yn cynnwys £152m i ddarparu taliad costau byw o £150 i aelwydydd cymwys (y prif gynllun) a £25m i ddarparu cymorth disgresiynol at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â chostau byw. Rhoddwyd dyraniadau cyllid ar gyfer pob rhan o'r cynllun i awdurdodau lleol ar 25 Mawrth 2022.

Bwriad y cynlluniau yw rhoi cymorth ar unwaith i aelwydydd wrth i Gymru adfer ar ôl y pandemig a delio ag effaith costau ynni a chostau byw eraill sy'n cynyddu.

Wrth ddatblygu Cynllun Dewisol Lleol, mae gan bob awdurdod lleol ymreolaeth lwyr i dargedu'r arian i gefnogi ei drigolion yn y ffordd orau bosibl ac i sicrhau bod ei ddull gweithredu yn gweddu orau i anghenion aelwydydd unigol.

Y Newid sy'n cael ei ystyried:-

Defnyddio rhan o elfen Cyngor Gwynedd o'r Gronfa Disgresiynol i wneud taliadau i aelwydydd nad oedd yn wedi derbyn taliad trwy'r cynllun statudol gwreiddiol ar sail Treth Cyngor eu haelwyd ("Cynllun Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor").

Defnyddio gweddill y cyllid trwy ei drosglwyddo i Hybiau Banciau Bwyd er mwyn cyflawni prosiectau penodol fydd yn lliniaru effaith yr argyfwng costau byw ar yr aelwydydd mwyaf bregus. ("Cynllun Hybiau Banciau Bwyd").

Mae canllawiau ar gyfer y Cynllun Dewisol wedi cael eu gosod gan LLC sy'n cyfyngu sgôp gweithrediadau'r cyngor.

### **I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

### **I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

#### Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Chwefror– Ebrill 2022

- Adnabod yr aelwydydd oedd yn gymwys i dderbyn taliadau dan y cynllun gwreiddiol – aelwydydd oedd unai'n derbyn cymorth dan y Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor, neu yn byw mewn eiddo band A – D ac yn bodloni meini prawf penodol.

Mai - Mehefin 2022

- Dosbarthu taliadau o £150 i aelwydydd cymwys, unai trwy daliadau uniongyrchol i'w cyfrifon banc neu trwy ddsbarthu talebau i'w defnyddio mewn swyddfeydd post.

- Cychwyn ar y gwaith o adnabod categorïau o aelwydydd bregus a/neu gyda chyfyngiadau ar eu hincwm ond nad oedd yn gymwys i gael taliad dan y cynllun gwreiddiol.

Gorffennaf - Awst 2022

- Asesu nifer yr aelwydydd ym mhob categori a chadarnhau cadernid y meini prawf  
- Diweddarau'r Cynllun Disgresiynol drwy wasanaethau cymorth.

### Hybiau Banciau Bwyd

#### Mai 2022

- Adnabod grwpiau taliadau unigol
- Adnabod grwpiau posibl i dderbyn taliadau disgresiwn uniongyrchol
- Adnabod gwasanaethau posibl ar gyfer defnydd o'r gronfa ddisgresiwn.

#### Gorffennaf 2022

- Canllawiau terfynol LLC wedi eu derbyn
- Adolygu'r grwpiau blaenoriaeth i gyd-fynd gyda'r canllaw ( cymwysedd / anghymwys)

#### Awst 2022

Diweddarau'r Cynllun Disgreisiynol drwy wasanaethau cymorth.

## **2) Gweithredu**

### **2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

#### Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Gwasanaethau Mewnol y Cyngor – Cyllid, Tai, Oedolion, Plant, Economi.

#### Hybiau Banciau Bwyd

Gwasanaethau Mewnol y Cyngor – Cyllid, Tai, Oedolion, Plant, Economi.

Defnyddwyr:

Partneriaid gweithredol – banciau bwyd, cynlluniau cymunedol,

Partneriaid Strategol – Cynefin, Adra, CAB, Mantell Gwynedd, Llywodraeth Cymru.

## 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

### Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Nid oes ymgynghoriad wedi cael ei gynnal. Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun dewisol:

*“Yn ogystal â chefnogi'r categorïau cymwys a amlinellwyd uchod drwy'r prif gynllun, caiff pob awdurdod lleol ddefnyddio'r cyllid a ddarperir o dan y Cynllun Disgresiynol i gefnogi aelwydydd y mae angen cymorth arnynt gyda'u costau byw, ym marn yr awdurdod lleol. Gall y cymorth hwn fod ar ffurf taliad i aelwyd nad yw wedi'i chwmpasu eisoes gan y prif gynllun, neu gall dalu costau gwasanaethau hanfodol a ddarperir i'r aelwyd, er enghraifft ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim neu brydau bwyd ar glud.*

*Bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu sut y bydd yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael a rhestrir rhai meysydd i'w hystyried yn y cynllun disgresiynol lleol isod:*

- *Gellir darparu taliadau (neu gymorth arall) i aelwydydd nad ydynt yn perthyn i un o ddsbarthiadau cymwys A neu B yn y prif gynllun neu sy'n byw mewn eiddo sydd wedi'i eithrio rhag talu'r dreth gyngor, er enghraifft pobl sy'n gadael gofal a phobl sydd wedi'u heithrio oherwydd nam meddyliol difrifol.*
- *Gwneir gwneud taliadau i aelwydydd y gellir eu nodi ar wahân sy'n byw mewn Tai Amfeddiannaeth.*
- *Gellir dyfarnu taliad i aelwydydd sy'n cael gwasanaethau cymorth tai a/neu sy'n byw mewn llety dros dro neu loches.”*

Rydym wedi ymdrechu i ymlynu mor agos â phosib i'r gofynion hyn wrth ddylunio'r canlynol:

O safbwynt y taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor, roedd y amlwg fod rhai aelwydydd wedi cael eu heithrio o'r cynllun gwreiddiol am fod eithriadau statudol yn golygu nad oedd angen talu Treth Cyngor ar yr eiddo. Serch hynny, byddai preswylwyr eiddo o'r fath yn sicr o fod mewn risg o dioddef caledi ariannol gan fod natur yr eithriad yn nodweddiadol o sefyllfa benodol yr aelwyd, lle byddai diffyg incwm yn golygu

- Eithriad Dosbarth N – eiddo wedi feddiannu gan fyfyrwyr llawn amser
- Eithriad Dosbarth S – Eiddo wedi feddiannu gan bobol dan 18
- Eithriad Dosbarth U – Eiddo wedi feddiannu gan breswylwyr sydd wedi eu adnabod fel bod â “Nam Meddyliol Difrifol” (noder – dyma'r terminoleg a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, “Severely Mentally Impaired”)
- Eithriad Dosbarth W – Anecs wedi feddiannu gan berthnasau dibynnol dan amodau
- Eithriad Dosbarth X – Unigolion dan 25 sydd mewn ôl ofal
- Eiddo Band F-I sydd yn deilwng i ostyngiad Band oherwydd anabled
- Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd “Nam Meddyliol Difrifol” (noder – dyma'r terminoleg a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, “Severely Mentally Impaired”).



Yn ogystal â'r uchod, mae'r canlynol hefyd wedi cael eu hadnabod fel amgylchiadau lle mae incwm yr aelwyd wedi ei gwtogi oherwydd yr amgylchiadau, a felly'n derbyn taliad o £150.

- Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd cyfrifoldeb gofal
- Eiddo Band E-I ble mae'r ail berson ar y cyfrif Treth Cyngor yn 18-19 mlwydd oed ac mewn addysg
- Eiddo Band E-I sydd yn deilwng i Ddisgownt Preswlydd Sengl

#### Hybiau Banciau Bwyd

Mae criteria aelwydydd cymwys wedi eu gosod gan y canllaw felly nid oes ymgysylltu wedi bod gyda hwy. Fodd bynnag mae profiad blaenorol o weinyddu taliadau (Winter Fuel Payment / Self Isolation COVID Payment) wedi hysbysu y weithdrefn leol sydd wedi ei rhoi mewn lle ar gyfer sicrhau mynediad pobl i'r gefnogaeth yma ee ad-daliad banc drwy'r cyfrif treth cyngor; cais am daliad i dreth-dalwyr nad ydynt yn talu drwy DD; cais ar lein, cais dros ffon ac ati.

Mae gwaith ymgysylltu wedi bod gyda trigolion drwy gomisiwn CELyn – portreadau o fyw gyda argyfwng costau byw yng Ngwynedd. Mae'r portreadau hynny yn dangos fod mynediad i help lleol, help ariannol, cyngor, uchafu incwm, talebau a nwyddau yn allweddol iddyn nhw.

Mae ymgysylltu gyda banciau bwyd a defnyddwyr y banciau yn nodi fod mwy o alw. Mae pobl yn dewis talu rent a biliau heb ddim ar ôl ar gyfer bwydo yn negeseuon sydd wedi dod i'r banciau a grwpiau bwydo lleol ac yn ei sgil y mwy o ddefnydd a galw ar y gwasanaethau hynny.

Mae ymgysylltu gyda Cyngor ar Bopeth a Timau Lles y Cymdeithasau Tai yn nodi mwy o alw gan bobl am help ymarferol o amgylch tlodi, ond hefyd help gyda effeithiau tlodi ar iechyd meddwl ee iselder, gorbryder a straen.

### **2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Addasu gweithdrefnau er mwyn sicrhau hygrychedd i daliadau uniongyrchol.

Sefydlu Rhwydwaith o Hybiau Cefnogi Pobl mewn 11 cymuned sy'n tynnu gwasanaethau cymorth i un lle. Mae'r MoU hefyd yn nodi fod yr hwb yn agored i bawb, ond bod disgwyl i'r hybiau dargedu rhai grwpiau sydd fwyaf mewn perygl – economaidd - gymdeithasol a effeithir, pobl gydag anabledau, gofalwyr di-dal fel y grwpiau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw.

Sefydlu Cronfa Grant Bwyd ar gyfer sicrhau digon o gyflenwad bwyd a bwydo argyfwng drwy'r sir yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ble mae cost cyrraedd siopau, a siopau yn tueddu i fod yn ddrytach.

Sefydlu Rhwydwaith o adeiladau i ddarparu gofod cynnes i bobl y tu allan i'w cartrefi.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Canllawiau'r Gronfa gan LLC.

Data Treth Cyngor.

Hybiau Banciau Bwyd

Canllawiau'r Gronfa gan LLC.

Data Amddifadedd Lleol.

Data Tlodi Tanwydd Lleol.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor

Na – mae'r taliadau yn seiliedig ar sefyllfa Treth Cyngor yr eiddo.

Hybiau Banciau Bwyd

Pa ddarpariaethau eraill sydd ar gael yn lleol er mwyn gwarantu osgoi dyblygu / camwahaniaethu anfwriadol – mae'r cyd-destun yn newid yn sydyn ac mae ymgyrchoedd newydd yn codi yn ddyddiol.

Nid oes ffordd o fapio cyfredol o ran yr holl ymyraethau posibl i grwpiau penodol / poblogaeth gyfan sydd ar gael.

Mae data amddifadedd a thlodi drwy'r WIMD yn dyddio i'r cyfnod cyn COVID felly mae'r sail dystiolaeth wedi dyddio ac yn anghyflawn.

### 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Anabledd	Positif	<p>Mae pobl anabl yn fwy tebygol o ddiodeff tlodi. Mae rhai pobl anabl hefyd yn gwario mwy ar danwydd ar gyfer cynnal meddyginiaethau / triniaethau / rheoli cyflwr. Mae i'r gronfa elfen ddisgresiynol sy'n rhoi hawliau i gyngor roi taliadau i grwpiau bandiau treth penodol, a rhyddhad i'r anabl / nam meddyliol.</p> <p>Yn ogystal â hynny, bydd mabwysiadu'r cynllun hwn yn golygu bydd modd rhoi cymorth i aelwydydd ble mae un o'r preswylwyr, neu bob un ohonynt, yn derbyn taliad un tro o £150 os ydynt yn derbyn gostyngiad i'w Treth Cyngor oherwydd anabledd.</p>
Rhyw	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod. Er fod tystiolaeth yn dangos fod merched yn fwy tebygol o ddiodeff tlodi, mae'r gronfa wedi ei sefydlu ar sail taliad i annedd.
Oedran	Positif	<p>Er fod grwpiau oedran ee Plant / Rhai dros 65 yn fwy tebygol o ddiodeff tlodi – mae'r gronfa wedi ei sefydlu ar sail taliad i annedd waeth be fo'r oedran.</p> <p>Mae'r cynllun yn cynnig taliad o £150 yr un i breswylwyr mewn eiddo band E-I sy'n derbyn disgownt person sengl, ond ni fuasent yn derbyn cymorth heb fabwysiadu'r cynllun hwn. Mae cyfran sylweddol sydd yn categori yma o gymorth yn bobl hyn. Maent mewn sefyllfa "asset rich, cash poor".</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Bechiogrwydd a mamolaeth</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Anfantais Economaidd-Gymdeithasol</b>	Positif	Amcangyfrifir y bydd dros 4,200 o aelwydydd ychwanegol yn derbyn cymorth ariannol o daliad un-tro o £150 trwy'r cynllun yma.

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a bechiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Nac ydi	Ni chredir fod yr effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn ddigonol i arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth.  Mae'r taliadau yn cael eu gwneud ar sail bandiau treth cyngor felly nid oes camwahaniaethu ar sail daliadaeth yr eiddo; demograffi deilyddion yr eiddo.  Mae'r elfennau disgresiynol yn ehangu gwasanaethau cymorth i'r boblogaeth gyfan.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Nac ydi	Nid ydym yn credu fod taliadau unwaith ac am byth o £150 dan y cynllun hwn am gael effaith o safbwynt hyrwyddo cyfle cyfartal.

<b>Meithrin perthnasau da</b>	Niwtral	Mae'r gwaith o sefydlu'r cynllun yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir a chanllawiau'r llywodraeth.
-------------------------------	---------	--

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Taliadau unwaith ac am byth o £150 i oddeutu 4,200 o aelwydydd sydd dan sylw yma yn unol â chynllun y llywodraeth. Yn y cyd-destun hwn, ni welwn fod y cynnig yn mynd yn groes i ofynion Safonau'r Iaith Gymraeg mewn unrhyw fodd.

Yn yr un modd, credwn fod y pecyn o gymorth fydd yn cael eu cynnig i'r banciau bwyd yn gymorth i gefnogi aelwydydd Cymraeg eu hiaith o fewn Gwynedd heb greu anfanteision i aelwydydd di-Gymraeg.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Polisi ariannol yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith positif ar yr iaith.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, mae sylw penodol wedi cael ei roi i sicrhau fod y taliadau un-tro o £150 yn cael eu cyfeirio i aelwydydd nad oedd wedi derbyn cymorth oherwydd cyfyngiadau'r cynllun gwreiddiol ond sydd, serch hynny, yn breswylwyr mewn eiddo lle mae eithriad neu ddisgownt Treth Cyngor yn awgrymu y gallent wynebu trafferthion talu eu costau byw dros y misoedd nesaf. Mae mynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol yn greiddiol i'r cynllun hwn, er ein bod yn cydnabod na fydd un taliad o £150 ynddo'i hun am wneud gwahaniaeth sylweddol.

Bydd y cymorth i Hybiau Banciau Bwyd yn caniatáu i ystod o gyrff i roi cymorth i unigolion a theluoedd mwyaf bregus Gwynedd.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Gan fod natur y taliadau hyn yn seiliedig ar gyfrifon Treth Cyngor, a chanllawiau'r Llywodraeth yn ymofyn hynny i raddau helaeth, credwn ein bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i ddefnyddio'r Cynllun Dewisol i gynorthwyo'r haen o aelwydydd sydd mewn risg o gael trafferth i dalu eu biliau, ond nad oedd wedi cael cymorth dan y cynllun gwreiddiol.

#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd effaith cyffredinol bositif o weithredu'r cynllun.

##### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae effaith wedi ei adnabod, a bydd yn bositif, ond ni chredir y bydd yn sylweddol oherwydd y symiau ariannol sydd dan sylw. Nid yw'r gefnogaeth ariannol (taliadau unigol) a ddarperir yn cyfarch y bwlch yn sgil y cynnydd mewn costau.

Trefniant dros dro yw'r taliad a'r gwasanaethau cymorth tan Mawrth 2023, ac nid oes cronfa na polisi ar gyfer y cyfnod wedi hynny pe bae costau byw yn parhau run peth neu'n waethygu eto.

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

##### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Mae'r cynllun yn ymwneud â dosbarthu symiau ariannol i aelwydydd sydd wedi cael eu hadnabod, nid yw hynny'n golygu torri gwasanaeth a nid ydym yn credu fod aelwydydd haeddiannol wedi cael eu gadael allan.

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Fel rhan o'r broses o fonitro'r cynllun yn ariannol, byddwn yn adnabod arian sydd yn weddill ac yn ymdrechu i'w wario o fewn Gwynedd, yn unol â'r hyn a ganiateir gan y cynllun.



## ADRODDIAD I'R CABINET 25 HYDREF 2022

**Aelod Cabinet:** Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2022/23 – Adolygiad Diwedd Awst 2022

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

### 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2022 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodi bod effaith ariannol Covid ar rai meysydd yn parhau yn 2022/23, er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colled incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion.
- Nodi bod rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Tai ac Eiddo eleni. Manylir ar y rhesymau penodol sydd yn effeithio'r adrannau yn rhan 5 o'r adroddiad, ond mae effaith y cynnydd mewn chwyddiant a phrisiau trydan yn benodol yn ffactor amlwg.
- O ystyried y gorwariant sylweddol a ragwelir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, nodi bwriad y Prif Weithredwr i alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn mynd i wraidd y gorwariant. I sicrhau bod camau pendant yn cael eu cymryd i geisio dod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.
- Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, argymhellir mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:
  - yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r cynnydd mewn prisiau trydan yn yr ysgolion
  - yn ail, defnyddio £4.5 miliwn o'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor
  - yn olaf, y gweddill i'w gyllido o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad ddiwedd Awst yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb referniw'r Cyngor am 2022/23, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd yr Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, Addysg, Economi a Chymuned, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Thai ac Eiddo yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Manylir ar effaith y cynnydd mewn chwyddiant, yn arbennig felly costau trydan sydd uwchlaw'r gyllideb yn Atodiad 1. Adroddir ar orwariant sylweddol gan pump o'r chwech adran, tra bod gweddill adrannau'r Cyngor yn gweithredu o fewn eu cyllideb.

Yn **Atodiad 2**, rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

## 3. Covid

Mae sgil effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm oedd werth dros £20 miliwn yn 2020/21 a £17.5 miliwn pellach yn 2021/22. Bu modd i Awdurdodau Lleol hawlio o gronfa caledi Llywodraeth Cymru i'w digolledu yn 2020/21 ac yn 2021/22, ond gan fod y gronfa bellach wedi dod i ben, mae'r pwysau yn disgyn ar y Cyngor yn 2022/23.

Er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, mae costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad ar gynlluniau arbedion yn sgil Covid yn parhau mewn rhai meysydd.

## 4. Sefyllfa Arbedion

Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa arbedion, ymddengys fod gwerth £33.4 miliwn sef 94% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu. Heb amheuaeth bu oediad mewn gwireddu rhai cynlluniau arbedion o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

Gwelwyd fod yr oediad mewn gwireddu arbedion amlycaf gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda chynlluniau gwerth £930k, tra bod £533k gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

## **5. Adrannau'r Cyngor**

Mae cynnydd mewn prisiau yn arbennig felly effaith prisiau trydan uwch i weld yn amlwg iawn ar yr adrannau. Ceir rhagolygon gorwariant sylweddol am amrywiol resymau mewn pum adran eleni. Mae'r prif faterion o fewn yr adrannau fel a ganlyn:

### **5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Rhagolygon diweddaraf yn awgrymu dros £1.9 miliwn o orwariant, sydd yn gyfuniad o nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu gwerth £930k o arbedion. Pwysau ar lety cefnogol a pheccynnau taliadau uniongyrchol yn faterion yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn. Costau staff a diffyg incwm yn broblemus yng Ngofal Cymunedol.

### **5.2 Adran Addysg**

Rhagwelir gorwariant o £1.3m gan yr Adran Addysg sydd o ganlyniad i effaith prisiau trydan uwch am gyfnod o chwe mis o Hydref 2022 ymlaen ar yr ysgolion. O ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ystyrir ei bod felly yn briodol i ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni.

### **5.3 Byw'n Iach**

O ganlyniad i sgil effaith Covid, bu i Gwmni Byw'n Iach dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru oedd werth £1.4 miliwn yn 2021/22 a £2.7 miliwn yn 2020/21. Nid yw cymorth o'r fath ar gael gan y Llywodraeth eleni. Ond, gan fod sgil effaith covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar y gallu i gynhyrchu incwm, bu i'r Cyngor gadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau Byw'n Iach drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd 2022/23. Yn ôl y rhagolygon diweddaraf gwerth y cymorth sydd ei angen yw £842k. Costau trydan uwch sydd yn gyfrifol am weddill y gorwariant Byw'n Iach.

#### **5.4 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes bwrdeistrefol yn parhau, gyda'r problemau amlycaf yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu. Mae'r adran yn hefyd yn cael trafferthion gwireddu arbedion gwerth £533k mewn nifer o feysydd.

#### **5.5 Tai ac Eiddo**

Oblygiadau newid i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Digartrefedd yn golygu pwysau ariannol sylweddol eleni. Er bod dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau yn sgil covid y Cyngor wedi ei roi i gynorthwyo'r sefyllfa, rhagwelir gorwariant net o £3.2 miliwn eleni.

#### **5.6 Corfforaethol**

Rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol a hefyd yn cyfrannu at y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor. Y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog £1.1 miliwn yn fwy ffafriol.

### **6. Casgliad Cyffredinol**

Sefyllfa gorwariant o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys methiant i wireddu arbedion, sgil effaith ariannol Covid, prisiau cynyddol trydan ynghyd â nifer o faterion eraill yn amlwg o fewn yr adrannau eleni. Rhagwelir y bydd yn rhaid gwneud defnydd o gronfeydd wrth gefn Ysgolion a'r Cyngor i gyllido'r bwlch ariannol o £7.1 miliwn a ragwelir am 2022/23.

### **7. Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 24 Ionawr 2023 ar sefyllfa diwedd Tachwedd 2022.

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol****Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

**Cyllideb Refeniw 2022/23 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran**

	Adolygiad Diwedd Awst				Effaith Cynnydd Chwyddiant Uwchlaw'r Gyllideb 2022/23 £ '000
	Cyllideb Arfaethedig 2022/23 £'000	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23 £ '000	Addasiadau a Argymhellir £'000	Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2022/23 £ '000	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	64,424	1,920	0	1,920	287
Plant a Theuluoedd	21,286	88	0	88	0
Addysg	102,043	1,312	0	1,312	1,668
Economi a Chymuned	5,928	1,231	0	1,231	757
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	28,244	1,836	0	1,836	528
Amgylchedd	4,268	(13)	0	(13)	75
Ymgynghoriaeth Gwynedd	9	(30)	0	(30)	0
Tai ac Eiddo	9,389	3,283	0	3,283	273
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,163	(27)	0	(27)	0
Cefnogaeth Gorfforaethol	8,155	(42)	0	(42)	19
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	7,449	(21)	0	(21)	0
Cyllidebau Corfforaethol <i>(Gwahaniaethau yn unig)</i>	*	(2,483)	0	(2,483)	2,400
<b>Cyfansymiau (net)</b>	<b>253,358</b>	<b>7,054</b>	<b>0</b>	<b>7,054</b>	<b>6,007</b>
<i>Defnydd o Gronfeydd / Balansau Cyffredinol</i>				(7,054)	
				<b>(7,054)</b>	<b>0</b>

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	<b>Amcan Cyllideb 2022/23</b>	<b>Amcan Sefyllfa 2022/23</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	<b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	<b>Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22</b>
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Gwasanaethau Oedolion</u></b>						
Gwasanaethau Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	18,257	17,703	(554)		(554)	(676)
Gofal Cartref	7,978	7,789	(189)		(189)	366
Eraill	294	1,550	1,256		1,256	739
	26,529	27,042	513	0	513	429
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,794	2,284	(510)		(510)	(125)
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	23,893	24,108	215		215	284
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	4,141	4,399	258		258	443
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)	3,784	3,743	(41)		(41)	(108)
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u></b>	<b>61,141</b>	<b>61,576</b>	<b>435</b>	<b>0</b>	<b>435</b>	<b>923</b>
<b><u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u></b>						
Gofal Preswyl	0	122	122		122	(399)
Gofal Dydd	0	(165)	(165)		(165)	(135)
Gofal Cymunedol	0	1,550	1,550		1,550	950
Eraill	0	35	35		35	(10)
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u></b>	<b>0</b>	<b>1,542</b>	<b>1,542</b>	<b>0</b>	<b>1,542</b>	<b>406</b>

<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST</b>						
<b>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</b>	Amcan Cyllideb 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b><u>Gwasanaethau Eraill</u></b>						
Gwasanaethau Canolog Adrannol ( <i>gan gynnwys arbedion yr Adran</i> )	3,224	3,564	340	0	340	370
Gwariant Covid19 ym maes Gofal Oedolion	0	0	0	0	0	0
Gwariant Ychwanegol Gweithlu Gofal Sgil Covid 19	59	59	0		0	164
Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran		(397)	(397)		(397)	0
<b><u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u></b>	<b>3,283</b>	<b>3,226</b>	<b>(57)</b>	<b>0</b>	<b>(57)</b>	<b>(1,398)</b>
<b><u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u></b>	<b>64,424</b>	<b>66,344</b>	<b>1,920</b>	<b>0</b>	<b>1,920</b>	<b>(69)</b>



**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - Yn 'Eraill' cynnydd yn y pwysau ar lety cefnogol ac yn nifer y pecynnau taliadau uniongyrchol, ond fod llai o bwysau ar breswyl a nyrsio a gofal cartref. Trafferthion gwireddu arbedion hefyd yn cyfrannu at y darlun.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - lleihad yn y galw am ofal cartref ond pwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - achosion newydd i'r maes a phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol sydd yn cael ei leihau gan lai o gynlluniau cefnogol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - y tueddiad o bwysau cynyddol ar breswyl a nyrsio yn parhau gyda achosion newydd costus.

**Gwasanaethau Darparu** - staffio uwchlaw lefel y gyllideb a diffyg incwm yn faterion yn gofal cymunedol. Tra fod prisiau cynyddol trydan wedi arwain at orwariant gan gartrefi preswyl. Effaith Covid yn parhau i amharu ar ddarpariaeth Gofal Dydd ac felly yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - arbedion gwerth £545k yn parhau heb eu gwireddu ond trosiant staff yn lleihau'r effaith.

**Cyllideb 2022/23** - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £3.4 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2022/23 gan gynnwys i'r maes Preswyl a Nyrsio, Anabledd Dysgu a Phobl Hŷn.

**Arbedion** - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £930k yn parhau heb eu gwireddu.

Mae'r adran wedi defnyddio £397k o'u cronfa tanwariant i leihau'r gorwariant a adroddir i £1.9 miliwn.

O ystyried y gorwariant sylweddol a ragwelir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant eleni nodir bwriad y Prif Weithredwr i alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn mynd i wraidd gorwariant yr Adran, fel bod camau pendant yn cael eu cymryd i geisio dod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Plant a Theuluoedd</b>	<b>Amcan Cyllideb 2022/23</b>	<b>Amcan Sefyllfa 2022/23</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	<b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	<b>Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22</b>
<b>Maes:-</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Rheolaeth Gwasanaeth	605	562	(43)		(43)	(53)
Gweithredol	2,462	2,608	146		146	57
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	5,064	4,729	(335)		(335)	342
Maethu Drwy Asiant	1,696	1,680	(16)		(16)	(129)
Maethu Mewnol	2,613	2,513	(100)		(100)	(32)
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	1,772	1,889	117		117	(14)
	11,145	10,811	(334)	0	(334)	167
Ôl-16	1,358	1,553	195		195	24
Arbenigol/Derwen	2,265	2,592	327		327	162
Cyfiawnder Ieuenctid	266	227	(39)		(39)	(51)
Blynyddoedd Cynnar	140	119	(21)		(21)	(74)
Ieuenctid	919	711	(208)		(208)	(247)
Eraill	2,126	2,191	65		65	(82)
<b>Cyfanswm Plant a Theuluoedd</b>	<b>21,286</b>	<b>21,374</b>	<b>88</b>	<b>0</b>	<b>88</b>	<b>(97)</b>

**Plant a Theuluoedd**

**Gweithredol** - gwariant yn uwch gan fod y niferoedd sydd yn derbyn cefnogaeth cynlluniau cefnogol yn uwch ac felly yn cael oblygiadau ar gostau eraill gan gynnwys teithio.

**Lleoliadau** - lleihad yn y nifer cyfartalog Lleoliadau All-Sirol eleni sef 23 i gymharu gyda 23.25 ar gyfer 2021/22. Er bod y nifer cyfartalog yn Maethu drwy Asiant yn 34.5 ar ddiwedd Awst i gymharu â 31 yn 2021/22, rhagwelir y bydd y gost o fewn y gyllideb. Yn Maethu Mewnol, cyfuniad o dderbyniad bidiau parhaol ac incwm gan y Swyddfa Gartref yn golygu fod tanwariant o (£100k) yn cael ei ragweld. Yn Gwasanaethau Cefnogol Eraill cyflogau uwchlaw'r sefydliad yn y Tim Lleoliadau a chostau uwch y Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn gyfrifol am y gorwariant.

**Ôl-16** - cynnydd yn y pwysau ar y gwasanaeth gyda 5 unigolyn yn derbyn cefnogaeth gwerth £100k yr un y flwyddyn.

**Arbenigol/Derwen** – y tueddiad gorwariant cynyddol yn parhau o ganlyniad i gynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol. Newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda mwy o bwysau ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach.

**Cyfiawnder leuenctid** - trosiant staff yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

**Blynyddoedd Cynnar** – defnydd o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau maes gofal plant yw'r rhesymau am y tanwariant.

**leuenctid** – derbyniad grant yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth. Gweithgaredd y gwasanaeth wedi ei amharu gan effaith Covid ac felly llai o wariant o ganlyniad.

**Eraill** - costau cyflogi a chostau uwch am wasanaethau.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Addysg</b>	<b>Amcan Cyllideb 2022/23</b>	<b>Amcan Sefyllfa 2022/23</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	<b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	<b>Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22</b>
<b>Maes:-</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Ysgolion Datganoledig	85,493	87,001	0		0	0
Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Trydan			1,508		1,508	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(1,046)	(1,161)	(115)		(115)	(345)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	6,017	6,228	211		211	106
Gwasanaeth Atodol	738	778	40		40	423
Eraill	3,158	3,065	(93)		(93)	(87)
	9,913	10,071	158	0	158	442
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,469	2,241	(228)		(228)	(129)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	5,214	5,203	(11)		(11)	(28)
<b>Cyfanswm Addysg</b>	<b>102,043</b>	<b>103,355</b>	<b>1,312</b>	<b>0</b>	<b>1,312</b>	<b>(60)</b>

**Addysg**

**Ysgolion Datganoledig - Costau Ychwanegol Trydan** - am y chwech mis o Hydref 2022 ymlaen effaith prisiau trydan uwch ar yr ysgolion. O ystyried fod yr ysgolion eisoes wedi elwa o bron i filiwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, ystyrir ei bod felly yn briodol i ddefnyddio balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol eleni.

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - derbyniad grant, trosiant staff, cwlogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau yn gyfrifol am y tanwariant.

**Cludiant** - er fod £146k o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes tacsis a threnau ysgolion yn 2021/22 a £150k pellach yn 2022/23, gorwariant o £208k yn cael ei ragweld eleni. Gwelwyd pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn dilyn i gyrsiau addysgol y Grŵp Llandrillo Menai gael eu symud i Llangefni ynghyd â chynnydd yn y galw am dacsis ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig Hafod Lon a Phendalar.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, awgrymir fod yr angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - cynllun Llywodraeth Cymru i gyllido cinio am ddim i blant derbyn a Blwyddyn 1 o Fedi 2022 a Blwyddyn 2 o Ionawr 2023, yn golygu nad yw'r tueddiad diffyg incwm a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf ar ginio ysgol yn amlwg eleni. Cynnydd mewn prisiau bwyd, diffyg incwm a chostau staff uwch i'w gweld ar yr elfen gofal o'r clybiau brecwast. Swyddi gwag a llai o bwysau ar gyllidebau eraill yn lleihau lefel y gorwariant.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - trosiant staff a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £217k.

Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant yr Adran Addysg o ganlyniad i orwariant ar gostau trydan yn yr ysgolion, **argymhellir** fod y Cabinet yn ystyried os y dylid cyllido'r costau trydan ychwanegol eleni o falansau'r ysgolion unigol.

<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST</b>						
<b>Adran Economi a Chymuned</b>	Amcan Cyllideb 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	383	383	0		0	0
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	1,009	1,024	15		15	66
Morwrol a Pharciau Gwledig	3	(86)	(89)		(89)	(189)
Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill	1,596	2,774	1,178		1,178	(12)
Rhaglenni Datblygu Economiadd	71	71	0		0	111
Marchnata a Digwyddiadau	296	301	5		5	11
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,689	1,665	(24)		(24)	(77)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	881	1,027	146		146	18
<b><u>Cyfanswm Economi a Chymuned</u></b>	<b>5,928</b>	<b>7,159</b>	<b>1,231</b>	<b>0</b>	<b>1,231</b>	<b>(72)</b>

## Economi a Chymuned

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant gan gynnwys rhagori targedau incwm yn y traethau a Hafan, Pwllheli yn dilyn tywydd ffafriol ac felly tymor prysur. Trosiant staff yn yr Harbyrau a Hafan, Pwllheli hefyd yn cynorthwyo'r sefyllfa ond fod costau cynyddol trydan yn lleihau'r tanwariant a adroddir.

**Cytundebau Byw'n Iach ac Hamdden Eraill** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. O ganlyniad i sgil effaith Covid, bu i Cwmni Byw'n Iach dderbyn cymorth ariannol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru oedd werth £1.4miliwn yn 2021/22 a £2.7 miliwn yn 2020/21. Nid yw cymorth o'r fath ar gael gan y Llywodraeth eleni. Ond, gan fod sgil effaith covid yn parhau yn 2022/23 ac yn amharu ar y gallu i gynhychu incwm, bu i'r Cyngor gadarnhau cefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau Byw'n Iach drwy ymestyn y cyfnod o sicrwydd a roddwyd i'r Cwmni hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Yn ôl y rhagolygon diweddaraf gwerth y cymorth sydd ei angen yw £842k. Costau sylweddol uwch trydan sydd yn gyfrifol am weddill y gorwariant.

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - cyfuniad o danwariant ar staff, teithio a chostau swyddfa.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - ni ragwelir y bydd y cynllun arbedion gwerth £70k yn Neuadd Dwyfor yn cael ei wireddu eleni gan fod sgil effaith Covid wedi amharu'n negyddol ar lefelau incwm y Neuadd a gan y bydd y Neuadd hefyd ar gau am gyfnod o ddau fis yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer gwaith gwedd 2 ar yr adeilad. Problemau yn Storiell yn parhau gyda diffyg o £49k yn cael ei ragweld am y flwyddyn. Costau cynyddol trydan hefyd yn cyfrannu at y gorwariant a adroddir.

Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant yr Adran Economi a Chymuned o ganlyniad i gymorth ariannol gwerth £842k i Gwmni Byw'n Iach ynghyd â chynnydd mewn prisiau trydan.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)</b>	Amcan Cyllideb 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	10,585	10,603	18		18	267
Gwasanaethau Peirianeg	384	593	209		209	23
Gwasanaethau Bwrdeistrefol						
Gwastraff	12,215	13,366	1,151		1,151	362
Eraill	5,060	5,518	458		458	94
<b>Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol</b>	<b>28,244</b>	<b>30,080</b>	<b>1,836</b>	<b>0</b>	<b>1,836</b>	<b>0</b>

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Priffyrdd** - lleihad yn y gweithiau a gomisiynir gan y prif glientau ynghyd ag oediad i wireddu cynlluniau arbedion.

**Gwasanaethau Peirianeg** - methiant i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng, pont Aber ac hefyd pont Abermaw ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiad.

**Gwastraff** - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Cylchdeithiau ychwanegol wedi arwain at orwariant ar gostau cyflogaeth a chostau fflyd. Lefelau salwch a goramser hefyd yn broblemus, tra fod na gostau ychwanegol o ran hurio cerbydau. Gorwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu ond yr incwm ar werthiant defnyddiau ailgylchu yn rhagori'r gyllideb. Lleihad mewn gwastraff gweddilliol yn golygu fod y costau cysylltiedig yn is. Costau trydan uwch a thrafferthion i wireddu arbedion yn y maes hefyd yn cyfrannu at lefel y gorwariant a adroddir.

Yn dilyn y tueddiad gorwariant cynyddol yn y maes casglu gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Adran bellach wedi derbyn adroddiad allanol gan WRAP Cymru sydd yn cynnig argymhellion ar ffyrdd o wella'r gwasanaeth yma. Bydd yr adroddiad yn derbyn ystyriaeth reolaethol gan yr Adran.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys cynlluniau arbedion yn parhau heb eu darganfod a cholledion incwm cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Pwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd, glanhau toiledau cyhoeddus, gwastraff masnachol ac hefyd costau cynyddol trydan yn amlwg. Rhagwelir incwm uwch gan y gwasanaethau profedigaeth sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

O ystyried y gorwariant sylweddol a ragwelir gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol eleni nodi fod y Prif Weithredwr am alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn mynd i wraidd gorwariant yr Adran, fel bod camau pendant yn cael eu cymryd i geisio dod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.



<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST</b>						
<b>Adran Amgylchedd</b>	Amcan Cyllideb 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	836	863	27		27	20
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	586	491	(95)		(95)	(41)
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	309	(68)	(377)		(377)	(481)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(1,830)	(1,484)	346		346	190
Cludiant Integredig	1,803	2,070	267		267	195
	282	518	236	0	236	(96)
Cefn Gwlad a Mynediad	765	761	(4)		(4)	29
Gwarchod y Cyhoedd	1,799	1,622	(177)		(177)	(103)
<b><u>Cyfanswm Amgylchedd</u></b>	<b>4,268</b>	<b>4,255</b>	<b>(13)</b>	<b>0</b>	<b>(13)</b>	<b>(100)</b>

**Amgylchedd**

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu** - y rhagolygon incwm wedi gwella unwaith eto eleni yn dilyn i geisiadau sylweddol gael eu cyflwyno dros y misoedd diwethaf. Tanwariant ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol, gwasanaethau proffesiynol ac apeliadau.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**

**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)** - yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio** - diffyg incwm parcio o £270k a gorwariant ar gostau trydan sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau staff ac hyfforddi.

**Cludiant Integredig** - gorwariant o £366k ar gytundebau bysus cyhoeddus, ond incwm uwch a thanwariant amrywiol yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Awgrymir y dylid parhau efo'r adolygiad i'r ddapariaeth Cludiant yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

**Gwarchod y Cyhoedd** - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr, gwasanaethau a chyflenwadau.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Ymgynghoriaeth</b>	Amcan Cyllideb 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(552)	(588)	(36)		(36)	(14)
Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS)	0	0	0		0	0
Uned Rheoli Risg Llifogydd	607	607	0		0	(92)
Gwasanaeth Adeiladu	(46)	(40)	6		6	(3)
<b><u>Cyfanswm Ymgynghoriaeth</u></b>	<b>9</b>	<b>(21)</b>	<b>(30)</b>	<b>0</b>	<b>(30)</b>	<b>(100)</b>

**Ymgynghoriaeth**

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg** - swyddi gwag a rhagori ar incwm gan sefydliadau allanol megis Cyngorau eraill a Llywodraeth Cymru.

**Gwasanaeth Adeiladu** - tanwariant staff sydd yn arwain at ddiffyg cynhyrchu incwm.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adran Tai ac Eiddo</b>	<b>Amcan Cyllideb 2022/23</b>	<b>Amcan Sefyllfa 2022/23</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	<b>Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir</b>	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	<b>Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22</b>
<b>Maes:-</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Rheolaeth	242	213	(29)		(29)	(49)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	3,270	6,480	3,210		3,210	28
Tai Sector Breifat	446	421	(25)		(25)	(44)
Eraill	436	361	(75)		(75)	(49)
	4,152	7,262	3,110	0	3,110	(65)
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	5,015	5,209	194		194	(142)
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	(20)	(12)	8		8	(24)
	4,995	5,197	202	0	202	(166)
Addasiad Cau Cyfrifon					0	180
<b>Cyfanswm Tai ac Eiddo</b>	<b>9,389</b>	<b>12,672</b>	<b>3,283</b>	<b>0</b>	<b>3,283</b>	<b>(100)</b>

**Tai ac Eiddo**

**Gwasanaethau Tai, Digartrefedd** - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn Digartrefedd yn dwysau. Yn ystod 2021/22 bu i Lywodraeth Cymru ein digolledu am £2.9 miliwn o'r gwariant ychwanegol perthnasol o £3.3 miliwn o gronfa caledi Covid. Ond, eleni dim ond £475k yw gwerth y grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y gost. Yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, gwelwyd cynnydd pellach yn y galw, ynghyd â chostau cyfartalog uwch gan fod landloriaid wedi cynnyddu prisiau a gan fod argaeledd llety dros dro yn y sir wedi cyrraedd ei gapasiti. Mae'r gorwariant net o £3.2m a adroddir ar Digartrefedd yn dilyn dyraniad o £1.5m o gronfa trefniadau adfer yn sgil covid y Cyngor i'r gwasanaeth.

**Gwasanaethau Tai, Tai Sector Breifat ac Eraill** - tanwariant ar gostau staff ac ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Gwasanaethau Eiddo** - gorwariant yn deillio o gynnydd ym mhrisiau trydan ond sydd yn cael ei leihau gan swyddi gwag yn Eiddo. Cyfuniad o lai o wariant ar wasanaethau a chyflenwadau a diffyg incwm yn y maes Gofalu, Arlwyo a Glanhau.

Gofynnir i'r Cabinet nodi bod gorwariant yr Adran Tai ac Eiddo o ganlyniad i newid i ddeddfwriaeth yn ymwneud â Digartrefedd, gyda'r oblygiadau yn golygu gorwariant net o £3.2 miliwn eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

<b>Adrannau Canolog</b>	Amcan Cyllideb 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,163	2,136	(27)		(27)	(33)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	7,449	7,428	(21)		(21)	(96)
Cefnogaeth Gorfforaethol	8,155	8,113	(42)		(42)	(63)
<b>Cyfanswm Adrannau Canolog</b>	<b>17,767</b>	<b>17,677</b>	<b>(90)</b>	<b>0</b>	<b>(90)</b>	<b>(192)</b>

**Adrannau Canolog**

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - effaith swyddi gwag y ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol am ran o'r flwyddyn ynghyd â throsiant staff a swyddi gwag yn Cyfreithiol, sydd yn cael ei leihau gan ddefnydd o gyfreithwyr asiantaeth.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant gan gynnwys tanwariant ar swyddi gwag ynghyd ag incwm am weinyddu grantiau amrywiol a derbyniad incwm uwch mewn nifer o feysydd.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - trosiant staff a thanwariant ar nifer o benawdau ar draws yr adran yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant cyffredinol. Y tanwariant a adroddir yn yn cael ei leihau gan ragolygon o ddiffyg incwm o £66k gan yr Argraffdy.

<b>CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST</b>						
<b>Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)</b>	Amcan Cyllideb 2022/23	Amcan Sefyllfa 2022/23	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2022/23</b>	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	<b>Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2022/23</b>	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2021/22
<b>Maes:-</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor	*	*	(962)		(962)	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	(913)		(913)	0
Costau Cyfalaf	*	*	(310)		(310)	0
Derbyniad Llog	*	*	(1,145)		(1,145)	0
Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb	*	*	3,544		3,544	0
Darpariaeth wrth gefn ar gyfer Chwyddiant	*	*	(1,637)		(1,637)	0
Darpariaeth Arbedion	*	*	(1,200)		(1,200)	0
Gofynion Sgil Effaith Ariannol Covid	*	*	474		474	0
Eraill	*	*	(334)		(334)	0
<b><u>Cyfanswm Corfforaethol</u></b>	*	*	<b>(2,483)</b>	<b>0</b>	<b>(2,483)</b>	<b>0</b>
<i>Defnydd o Gronfeydd / Balansau Cyffredinol</i>				<b>(7,054)</b>		

**Corfforaethol**

**Treth Cyngor** - hyd at ddiwedd Awst, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 139 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (469 yn 2021/22, 506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Er hyn, rhagwelir sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23. Mae £6m o Bremiwm Treth Cyngor wedi ei raglennu i'w dderbyn yn ystod 2022/23 i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.

**Gostyngiadau Treth Cyngor** - lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.

**Costau Cyfalaf** - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca yn allanol sydd o ganlyniad yn creu tanwariant.

**Derbyniad Llog** - y cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu fod y rhagolygon derbyniad llog yn rhagori'r gyllideb ddisgwyliedig.

**Chwyddiant Tâl Uwchlaw'r Gyllideb** - mae'r ffigyrau diweddaraf yn awgrymu y bydd oblygiadau'r cynnydd cyflogau a argymhellir yn genedlaethol yn £3.5m, sydd yn sylweddol uwch na'r 4% a gynghorwyd i Gynghorau ei gyllidebu wrth sefydlu'r gyllideb am 2022/23 a ystyrid i fod yn ddarbodus ar y pryd.

**Darpariaeth wrth gefn ar gyfer Chwyddiant** - darparwyd cyllideb i gyllido pwysau ychwanegol posib yn deillio o chwyddiant.

**Darpariaeth Arbedion** - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud i'r pwrpas sydd ar gael i'w ddyrannu yn briodol.

**Gofynion Sgil Effaith Ariannol Covid** - y gofyn uwchlaw £1.4m a ddarparwyd yn y gyllideb am Covid yn £474k, sydd i'w gyllido o gronfa.

**Eraill** - dychwelyd bidiau a phwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd.

**Defnydd o Gronfeydd / Balansau Cyffredinol** - er mwyn cyllido sefyllfa ariannol y Cyngor, erbyn diwedd y flwyddyn rhagwelir y bydd angen defnyddio £7.1m o gronfeydd y Cyngor. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu bod angen defnyddio £1.5m o Falansau Ysgolion ar gyfer gorwariant trydan yn yr ysgolion, £4.5 o'r Gronfa Trefniadau Adfer yn Sgil Covid a'r gweddill sef £1.1m o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd hyn nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, **argymhellir** mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwloch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:

- yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r cynnydd mewn prisiau trydan yn yr ysgolion
- yn ail, defnyddio £4.5 miliwn o'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor
- yn olaf, y gweddill i'w gyllido o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

# Eitem 9

## ADRODDIAD I'R CABINET

<b>Dyddiad</b>	<b>25 Hydref 2022</b>
<b>Aelod Cabinet</b>	<b>Y Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid</b>
<b>Pwnc</b>	<b>Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion</b>
<b>Swyddog Cyswilt</b>	<b>Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid</b>

---

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2022/23, 2021/22 a blynyddoedd blaenorol.
- 1.2 Nodi bod effaith Covid-19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ymateb i'r argyfwng dros y cyfnod cychwynnol o'r argyfwng.

### 2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

- 2.1 Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2022/23, 2021/22 a blynyddoedd blaenorol.
- 2.2 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion sydd werth £595,000 yn 2022/23 a £966,720 yn 2021/22, ynghyd â'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol, yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2022.
- 2.3 Bellach gellir adrodd fod cyfanswm o dros £33.4 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 94% o'r £35.4m gofynnol dros y cyfnod. Llwyddwyd i wireddu dros 62% o'r arbedion diwygiedig ar gyfer 2021/22 gyda 41% o arbedion 2022/23 eisoes wedi eu gwireddu neu ar drac i gyflawni'n amserol eleni.
- 2.4 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

### 3. AIL-ASESU ARBEDION

- 3.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2022, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2022/23 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.



3.2 O ran cynlluniau arbedion 2022/23, penderfynodd y Cabinet ar 10 Chwefror 2022 i symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol, cydnabod fod y sefyllfa wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, gan adael £595,000 o arbedion i'w gwireddu yn 2022/23. Gweler Tabl 1 isod.

**Tabl 1: Arbedion wedi eu dileu neu eu gohirio i 2022/23**

	Gwreiddiol £	Gohirio £	Dileu £	Balans £
Cynlluniau 2022/23	2,375,000	1,290,250	489,750	595,000

#### 4. CYNLLUNIAU ARBEDION ADRANNOL 2015/16 – 2020/21

4.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran ar adeg cau cyfrifon 2021/22 yn erbyn y targed arbedion diwygiedig sydd wedi ei osod iddynt o 2015/16 - 2020/21, **cyfanswm o bron i £34m. Gellir adrodd bod £32.5m, neu 96% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau arbedion yn parhau.

4.2 Mae'r llithriad ymylol yma yn bennaf ar rai o gynlluniau 2019/20 a 2020/21, gyda'r her o'u gwireddu'n parhau.

4.3 Mae 23 cynllun gyda'r mwyafrif yn rhai bychan, gwerth cyfanswm o £721k wedi llithro ond nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem i'w gwireddu.

4.4 Mae'r 7 cynllun sy'n weddill sef gwerth £652k gyda risgiau i'w cyflawni. 4 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (cyfanswm o £449k), 1 gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (£133k) 1 gan Economi a Chymuned (£45k) ac 1 gan Tai ac Eiddo (£25k). Mae ymateb i'r argyfwng Covid wedi golygu llithro rhai elfennau o gynlluniau arbedion, ond posib fod angen ystyried bellach os oes modd cyflawni'r arbedion ynteu a oes angen cynnig cynlluniau a dulliau amgen ar gyfer gwireddu'r arbedion.

4.5 Ers cau cyfrifon 2021/22 ac erbyn adolygiad Awst 2022 mae gwerth £199,620 o gynlluniau pellach perthnasol i gyfnod 2015/16 – 2020/21 wedi eu gwireddu.

#### 5. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2021/22

5.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2021/22. Yn seiliedig ar sefyllfa wrth gau'r cyfrifon am y flwyddyn, o'r 24 o gynlluniau gwerth cyfanswm o bron i £967k sydd wedi eu proffilio am y flwyddyn, mae 13, sef **gwerth £517k neu 53% wedi eu gwireddu**. Mae 11 o gynlluniau unai yn llithro neu gyda rhai risgiau i'w cyflawni.

5.2 Mae gwerth cyfanswm o £246k o gynlluniau arbedion yn llithro ond bellach yn symud yn eu blaen tra fod gwerth £204k o gynlluniau lle mae'r Adrannau yn rhagweld risgiau i'w cyflawni.

- 5.3 O'r cynlluniau sydd â risg o gyflawni mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda 1 cynllun gyda tharged o £33,750 sef *Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion*. Mae'r Adran yn gweithio i symud y cynllun yn ei flaen ond mae risgiau yn parhau efo elfennau o'r gwaith.
- 5.4 Nid oedd arbedion 1 cynllun gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol sef *Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* (£75k) wedi ei wireddu wrth gau cyfrifon 2021/22 ond erbyn adolygiad Awst 2022 mae'r Adran bellach wedi llwyddo i'w wireddu.
- 5.5 Mae'r cynllun *Cynhyrchu incwm drwy atal twyll* gwerth £20k gan yr Adran Gyllid efo risgiau o gyflawni. Bu i'r argyfwng Covid arwain at oediad mewn gwireddu yn dilyn atal cyfweliadau yn ymwneud â hawliadau twyllodrus yn y maes Budd-daliadau dros gyfnod yr argyfwng. Maent yn parhau heb eu hail gychwyn o ganlyniad i'r amgylchiadau presennol, felly rhagwelir oediad pellach mewn gwireddu.
- 5.6 Mae risg o gyflawni arbedion y cynllun *Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro drwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol* gan yr Adran Tai ac Eiddo sydd gyda tharged o £75k yn 2021/22. Ers cyflwyno'r cynllun yma, mae newidiadau pellgyrhaeddol wedi digwydd o fewn maes digartrefedd. Cyn 2020/21 polisi Llywodraeth Cymru oedd cartrefu yn ôl yr angen, ond ers y pandemig Covid newidiwyd y polisi fel bod Awdurdodau Lleol yn cartrefu pawb. Er bod Strategaeth Tai yn cynnig atebion yn y hirdymor, mae'r sefyllfa ariannol yn sgil digartrefedd yn y tymor byr yn heriol i'r Adran.
- 5.7 Oherwydd blaenoriaethau eraill yn ystod 2021/22, ni fu cymaint o gynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion y flwyddyn.
- 5.8 Ers cau cyfrifon 2021/22 ac erbyn adolygiad Awst 2022 mae gwerth £107,500 o gynlluniau pellach perthnasol i gyfnod 2021/22 wedi eu gwireddu.

## 6. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2022/23

- 6.1 Mae **Atodiad 3** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2022/23. Mae'r cyfanswm targed arbedion yn £595k gyda gwerth £133k, sef 22% o gynlluniau eisoes wedi eu gwireddu a £113k pellach sef 19% ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 6.2 O'r 8 cynllun arbedion sydd wedi eu proffilio ar gyfer 2022/23 mae 2 wedi gwireddu'n barod gyda 2 pellach ar drac i wireddu'n llawn ac amserol. Bu llithriad ar 2 gynllun gwerth cyfanswm o £130k ond maent yn symud yn eu blaen, sydd yn cynnwys 1 cynllun gan yr Adran Gyllid ac 1 gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.
- 6.3 Rhagwelir risgiau i gyflawni 2 gynllun arbedion gwerth cyfanswm o £220k sydd yn cynnwys cynllun *Neuadd Dwyfor* (£70k) gan yr Adran Economi a Chymuned a chynllun *Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai* (£150k) gan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol.

## 7. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2023/24 YMLAEN

7.1 Rhestrir arbedion 2023/24 ymlaen, sef cynlluniau arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo mewn rhaglen arbedion flaenorol, fesul Adran yn **Atodiad 4**. Mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

## 8 CASGLIAD

8.1 Mae'n anorfod bod gwireddu £33.4m o arbedion (allan o gyfanswm o £35.4m) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol ac rwy'n ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

8.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda gwerth 94% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

**Tabl 2: Crynodeb o statws holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015**

<b>Statws yr Arbediad</b>	<b>Porth</b>	<b>£m</b>	<b>%</b>
Wedi gwireddu	1	33.4	94.4
Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol	2	0.1	0.3
Oediad, ond yn symud yn ei flaen	3	0.8	2.3
Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu fethu	4	0.8	2.3
Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol	5	0.3	0.7
<b>Cyfanswm arbedion</b>		<b>35.4</b>	

8.3 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, nodi bod effaith Covid wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion a chefnogi'r adrannau i symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion.

## **Barn yr Aelod Lleol**

Dim yn berthnasol

---

## **Barn y Swyddogion Statudol**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

### **Atodiadau:**

Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 - 2020/21 fesul Adran

Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2021/22 fesul Adran

Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2022/23 fesul Adran

Atodiad 4 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2023/24 ymlaen fesul Adran

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2020/21 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2020/21 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer	Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	1,691,360	1,691,360	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Ysgolion	4,235,000	4,235,000	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Amgylchedd	2,751,213	2,695,593	55,620	3	Bu llithriad ar dri cynllun; <i>Cyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (£20k), Cynyddu'r ffi ar gyfer asesu ansawdd dŵr er mwyn adlewyrchu'r gost o ddarparu'r gwasanaeth (£12.5k) a Rhesymoli ac Integreiddio'r Swyddfa gefn Adran Amgylchedd (£23.12k).</i>
Cefnogaeth Gorfforaethol	2,351,468	2,351,468	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Cyllid	1,756,636	1,736,636	20,000	1	Llithro gwireddu arbedion o £20k ar y cynllun <i>Cynhyrchu incwm drwy atal twyll.</i>
Economi a Chymuned	2,896,422	2,766,422	85,000	3	Bu llithriad gyda 2 gynllun <i>Cysoni trefniadau/adolygu ffioedd parcio</i> gwerth cyfanswm o £60k a'r cynllun <i>Dileu 1 swydd o'r Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata</i> £25k. Mae risg o wireddu gweddill yr arbedion sef £45k ar y cynllun <i>Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15.</i>

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2020/21 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2020/21 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer	Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Oedolion, Iechyd a Llesiant  Tud. 86	6,969,411	6,218,051	302,360 6	449,000 4	Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 4 cynllun sef <i>Integreiddio a Thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn</i> gyda £210k o darged yn 2019/20 ac mae sawl ffactor yn cyfrannu at yr her barhaus o'i gyflawni, <i>Cydweithio â'r trydydd sector i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog</i> (£75k), <i>Adolygu pecynnau gofal anabledau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen</i> (£100k) ac <i>Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran</i> (£64k) ond mae'r Adran yn gweithio i symud ymlaen gyda rhain. Mae 6 cynllun pellach gwerth cyfanswm o dros £302k wedi llithro ond mae'r Adran yn gweithredu i symud rhain yn eu blaen; y 3 mwyaf yw <i>Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus</i> (£150k), <i>Gwella prosesau gwaith drwy gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd a defnyddio modiwlau cyllid y system TG newydd o fewn yr Adran Oedolion</i> (£40k) ac <i>Ail-strwythuro'r Gwasanaeth Busnes</i> (£49k).
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,295,738	2,295,738	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	6,038,160	5,667,410	237,750 8	133,000 1	Gyda'r cynllun Trefniadau Fflyd (£133k) bu oediad oherwydd gorfodaeth i ail agor trafodaethau gyda'r Undebau ac yna sefyllfa Covid. Mae'r cynllun yma bellach yn derbyn sylw gan obeithio symud yn ei flaen yn ystod 2022/23. Mae 8 cynllun pellach gwerth cyfanswm o bron i £238k wedi llithro ond mae'r Adran yn gweithio i symud rhain yn eu blaen, y cynlluniau mwyaf yw <i>Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr a chodi ffi ar waredu deunyddiau DIY</i> (£90k) ac <i>Ail-strwythuro'r Adran</i> (£50k).
Ymgynghoriaeth	602,670	602,670	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2020/21 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2020/21 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro £ - nifer	Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni £ - nifer	Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	403,240	383,220	20,020 2	-	Mae llithriad ar 2 gynllun sef <i>Arbedion yng nghyllideb y Crwner</i> gwerth £13.8k gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad a wnaethpwyd rhai blynyddoedd yn ôl ond sydd eto heb ddigwydd a'r cynllun <i>Lleihau 2 ddiwrnod ar gefnogaeth weinyddol Gwasanaeth Etholiadau a Chyfreithiol (£6.22k)</i> .
Tai ac Eiddo	641,180	616,180	-	25,000 1	Mae risg o wireddu arbedion o £25k yn 2020/21 ar y cynllun <i>Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol</i> . Gweler pwynt 5.6 yn yr adroddiad.
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>32,632,498</b>	<b>31,259,748</b>	<b>720,750 23</b>	<b>652,000 7</b>	
Arbedion Rheolaethol	1,200,360	1,200,360	-	-	Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu.
<b>CYFANSWM - CYFRIFON TERFYNOL 2021/22</b>	<b>33,832,858</b>	<b>32,460,108</b>	<b>720,750 23</b>	<b>652,000 7</b>	<b>Yn nhermau ariannol (£), mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2020/21 wedi eu gwireddu.</b>
<b>CYFANSWM - ADOLYGIAD AWST 2022</b>	<b>33,832,858</b>	<b>32,659,728</b>	<b>501,130 14</b>	<b>672,000 8</b>	<b>Yn nhermau ariannol (£), mae 97% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2020/21 wedi eu gwireddu.</b>

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2021/22 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion 2021/22		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Ysgolion	65,000	1	65,000	1	-		-		Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu.
Amgylchedd	73,750	4	16,250	2	57,500	2	-		Bu llithriad ar dau gynllun sef <i>Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio</i> , gwerth £37.5k a <i>Chyflawni arbedion drwy brynu'n rhatach (e.e. offer swyddfa a TG)</i> gwerth £20k.
Cefnogaeth Gorfforaethol	117,750	4 *	45,250	2	72,500	2	-		Bu llithriad ar 2 gynllun sef <i>Dileu un swydd swyddog adnoddau dynol ac un swydd ymgynghorydd adnoddau dynol (Ileihad staffio o 20%) drwy newid ein model gweithredu</i> (£60k yn 2021/22) a <i>Dileu'r Gwasanaeth Datblygu Sefydliad</i> (£12.5k yn 2021/22).
Cyllid	100,000	4	35,000	2	45,000	1	20,000	1	Mae risgiau i gyflawni arbedion y cynllun <i>Cynhyrchu incwm drwy atal twyll</i> (£20k yn 2021/22). Bu oediad mewn gwireddu £45k o arbedion ar y cynllun <i>Arbedion treth ar gynllun newydd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn y maes Pensiwn i weithwyr y Cyngor</i> .
Economi a Chymuned	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	78,750	2	-		45,000	1	33,750	1	Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau i gyflawni arbedion y cynllun <i>Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion</i> (£33.75k) gan fod rhwystrau ar gynlluniau eraill a Covid wedi amharu ar y gallu i symud y cynllun yn ei flaen. Bu oediad ar y cynllun <i>Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a Theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo</i> , ond mae'n symud yn ei flaen (£45k).
Plant a Chefnogi Teuluoedd	23,170	1	23,170	1	-		-		Mae'r un cynllun oedd efo targed yn 2021/22 wedi ei wireddu.



Adran	Cyfanswm Arbedion 2021/22		Cynlluniau wedi eu gwireddu		Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro		Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
	£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		£ - nifer		
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	206,250	3 *	105,000	1	26,250	1	75,000	1	Ar gau cyfrifon 2021/22 roedd oediad o wireddu arbedion o £75k ar y cynllun <i>Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau</i> . Bu llithriad mewn gwireddu'r arbedion cynllun <i>Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont</i> (£26.25k yn 2021/22). Mae'r Adran yn parhau i fod mewn trafodaethau gyda Network Rail.
Ymgynghoriaeth	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2021/22.
Tud 89 Tai a Ffido	302,050	5	227,050	4	-		75,000	1	Mae risg o wireddu arbedion o £75k yn 2021/22 ar y cynllun <i>Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol</i> . Gweler pwynt 5.6 yn yr adroddiad.
<b>CYFANSWM - CYFRIFON TERFYNOL 2021/22</b>	<b>966,720</b>	<b>24</b>	<b>516,720</b>	<b>13</b>	<b>246,250</b>	<b>7</b>	<b>203,750</b>	<b>4</b>	<b>Yn nhermau ariannol (£), mae 53% o gynlluniau arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu a 25% o gynlluniau pellach lle bu oediad ond yn symud yn eu blaen.</b>
<b>CYFANSWM - ADOLYGIAD AWST 2022</b>	<b>966,720</b>	<b>24</b>	<b>624,220</b>	<b>16</b>	<b>213,750</b>	<b>5</b>	<b>128,750</b>	<b>3</b>	<b>Yn nhermau ariannol (£), mae 65% o gynlluniau arbedion 2021/22 eisoes wedi eu gwireddu a 22% o gynlluniau pellach lle bu oediad ond yn symud yn eu blaen.</b>

\* cynllun wedi ei wireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i'w wireddu yn llawn.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2022/23 FESUL ADRAN

109.06

Adran	Cyfanswm Arbedion 2022/23 £ - nifer		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - nifer		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - nifer		Cynlluniau sydd yn llithro a gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ - nifer		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
Amgylchedd	12,500	1	-		12,500	1	-		Mae'r un cynllun sydd wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23 ar drac i gyflawni'n amserol.
Cefnogaeth Gorfforaethol	100,000	1	100,000	1	-		-		Mae'r un cynllun sydd wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23 wedi ei gyflawni.
Cyllid	25,000	1	-		-		25,000	1	Bu oediad ar y cynllun <i>Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol</i> .
Economi a Chymuned	70,000	1	-		-		70,000	1	Mae'r cynllun sy'n ymwneud â Neuadd Dwyfor gyda risgiau i wireddu.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	100,000	1	-		100,000	1	-		Mae'r un cynllun sydd wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23 ar drac i gyflawni'n amserol.
Plant a Chefnogi Teuluoedd	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	287,500	3 *	32,500	1	-		255,000	2	Mae risgiau o wireddu arbedion o £150k y cynllun <i>Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai</i> . Bu oediad ar y cynllun <i>Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofawr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'</i> (£105k).
Ymgynghoriaeth	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
Tai ac Eiddo	-		-		-		-		Dim targed arbedion wedi ei broffilio ar gyfer 2022/23.
<b>CYFANSWM</b>	<b>595,000</b>	<b>8</b>	<b>132,500</b>	<b>2</b>	<b>112,500</b>	<b>2</b>	<b>350,000</b>	<b>4</b>	<b>Yn nhermau ariannol (£), mae 22% o gynlluniau arbedion 2022/23 eisoes wedi eu gwireddu a 19% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.</b>

\* cynllun wedi ei wireddu yn rhannol mewn un blwyddyn ariannol ond eto i'w wireddu yn llawn.

**ATODIAD 4**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 YMLAEN MESUL ADRAN**

Adran	2023/24	2024/25	2025/26	Cyfanswm Arbedion 2023/24 hyd at 2025/26	
	£	£	£	£ - <i>nifer</i>	
Economi a Chymuned	170,000	15,000	-	185,000	2
Oedolion, Iechyd a Llesiant	935,250	-	200,000	1,135,250	4
Plant a Chefnogi Teuluoedd	23,840	-	-	23,840	1
<b>CYFANSWM</b>	<b>1,129,090</b>	<b>15,000</b>	<b>200,000</b>	<b>1,344,090</b>	<b>7</b>

# Eitem 10

## ADRODDIAD I'R CABINET 25 HYDREF 2022

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2022/23 –  
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2022)

**Swyddog Cyswilt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

### Penderfyniad a geisir

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2022) o'r rhaglen gyfalaf.
  - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
    - defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £26,751,000 o 2021/22,
    - dim newid mewn defnydd o fenthyca,
    - cynnydd o £7,396,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
    - dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
    - cynnydd o £2,156,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
    - cynnydd o £13,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
    - cynnydd o £538,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.
- 

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2022/23. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £136.338m am y 3 blynedd 2022/23 – 2024/25.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £36.854m ers y gyllideb agoriadol, gyda £26.751m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2021/22 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r llithriadau yn adolygiad diwedd blwyddyn ar 14 Mehefin 2022).

Rhan 5: Manyllder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £79.8m yn 2022/23 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £21.1m (27%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda dim ond 11% o'r gyllideb sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni, o'i gymharu â 16% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 13% ddwy flynedd yn ôl.
- Mae £12.1m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24 a 2024/25, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2022/23 i 2024/25

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2022.

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYFANSWM £'000	CYNFYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL £'000	ADDASIAD LLITHRIAD £'000	NEWIDIADAU ERAILL £'000
	2022/23	2023/24	2024/25					
	£'000	£'000	£'000	£'000				
Addysg	11,412	14,579	2,955	28,946	6,030	2,901	3,129	
Amgylchedd	7,926	190	100	8,216	6,927	3,924	3,003	
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-	-	-	-	-	-	
Cyllid	1,828	837	619	3,284	546	546	-	
Economi a Chymuned	2,971	927	150	4,048	1,803	832	971	
Tai ac Eiddo	28,201	8,577	7,007	43,785	8,565	5,772	2,793	
Oedolion, Iechyd a Llesiant	4,151	2,875	-	7,026	3,041	3,011	30	
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,421	250	-	1,671	1,189	1,004	185	
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	11,088	2,399	5,686	19,173	3,734	3,205	529	
Ymgynghoriaeth	5,506	3,082	-	8,588	1,469	1,457	12	
Corfforaethol	5,267	3,271	3,063	11,601	3,550	4,099	(549)	
<b>CYFANSWM</b>	<b>79,771</b>	<b>36,987</b>	<b>19,580</b>	<b>136,338</b>	<b>36,854</b>	<b>26,751</b>	<b>10,103</b>	

#### 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £36.854m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				CYNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL	ADDASIAD LLITHRIAD	NEWIDIADAU ERAILL
	2022/23	2023/24	2024/25	CYFANSWM			
	£'000	£'000	£'000	£'000			
Benthyca gyda chefnogaeth	8,238	9,173	9,173	26,584	1,358	1,358	-
Benthyca Arall	7,592	5,195	3,137	15,924	1,635	1,635	-
Grantiau a Chyfraniadau	21,143	8,258	54	29,455	16,440	9,044	7,396
Derbyniadau Cyfalaf	774	39	0	813	63	63	-
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	3,261	30	0	3,291	2,253	97	2,156
Cronfa Cyfalaf	13,061	5,392	0	18,453	8,916	8,903	13
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	25,702	8,900	7,216	41,818	6,189	5,651	538
<b>CYFANSWM</b>	<b>79,771</b>	<b>36,987</b>	<b>19,580</b>	<b>136,338</b>	<b>36,854</b>	<b>26,751</b>	<b>10,103</b>

#### 5. Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £7,422k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad o £26k ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £7,396k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £1,570k Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim
- £897k Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Defnydd Cymunedol Ysgolion
- £850k Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru
- £692k Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) tuag at gynlluniau gwledig
- £587k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru
- £558k Grantiau Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru a Chyfraniadau eraill tuag at ail wynebu Maes Parcio Y Glyn Llanberis a chynlluniau eraill Parciau Gwledig
- £346k Grant Creu Lleoedd gan Lywodraeth Cymru – i wella eiddo
- £336k Grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) tuag at nifer o wahanol gynlluniau gwledig gan gynnwys Llwybr yr Arfordir
- £303k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig gan

gynnwys tirweddau cynaladwy

- £291k Grantiau Tai gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys Digartrefedd Rhan 2 a Trawsnewid Trefi
- £247k Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol
- £235k Grant Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru
- £184k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynllun i ddelio gyda Gwywiad yr Onnen
- £169k Grant Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru – Cynllun Meithrin Maenofferen
- £157k Grantiau o'r Gronfa Rhyddhau Tir gan Lywodraeth Cymru

## 6. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 i 2024/25, a
- cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).

## 7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2022/23 – 2024/25.

## 8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**

Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol****Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
  - Atodiad B: Symudiadau o 2022/23 i 2023/24
  - Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2022/23
-



**Manylion y Prif Newididau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

	2022/23	2023/24- 2024/25
	£'000	£'000
<b>Grantiau a Chyfraniadau</b>		
• Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim ( <i>Adran Addysg</i> ).	1,570	
• Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Defnydd Cymunedol Ysgolion ( <i>Adran Addysg</i> ).	897	
• Grant Creu Lleuedd gan Lywodraeth Cymru – i wella eiddo ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> ).	346	
• Grantiau Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru a Chyfraniadau eraill tuag at ail wynebu Maes Parcio Y Glyn, Llanberis a chynlluniau eraill Parciau Gwledig ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> ).	558	
• Grant Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru – Cynllun Meithrin Maenofferen ( <i>Adran Plant a Theuluoedd</i> ).	169	
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynllun i ddelio gyda Gwywiad yr Onnen ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).	184	
• Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau 20 milltir yr awr ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	850	
• Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	587	
• Grantiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) tuag at nifer o wahanol gynlluniau gwledig gan gynnwys Llwybr yr Arfordir ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	336	
• Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig gan gynnwys tirweddau cynaladwy ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	303	
• Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) tuag at gynlluniau gwledig gan gynnwys Llefydd Lleol i Natur ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	692	

• Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> ).	247
• Grant Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru tuag at Safle Sipsiwn Llandygai ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> ).	235
• Grantiau o'r Gronfa Rhyddhau Tir gan Lywodraeth Cymru ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> ).	157
• Grantiau Tai gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys Digartrefedd Rhan 2 a Trawsnewid Trefi ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> ).	291
<b>Refeniw Adrannol a Chorfforaethol</b>	
• Cyfraniadau Ysgolion tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys cerbydau ( <i>Adran Addysg</i> ).	112
• Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau ( <i>Adran Amgylchedd</i> ).	135
• Trosglwyddo elfen o'r gyllideb refeniw i ariannu cynlluniau Cynnal a Chadw sydd bellach yn gyfalaf o ran natur ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> ).	1,879
<b>Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill</b>	
• Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau ( <i>Adran Economi a Chymuned; Adran Amgylchedd; Adran Tai ac Eiddo</i> ).	177
• Adnewyddu cerbydau ac offer ( <i>Adran Plant a Theuluoedd; Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> ).	362

-----

**Manylion Ail-broffilio**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2022/23 £'000	2023/24 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynladwy ac Eraill) ( <i>Adran Addysg</i> )	(5,114)	5,114
Adfywio Tref a Glannau Caernarfon ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> )	(140)	140
Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> )	(142)	142
Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor ( <i>Adran Economi a Chymuned</i> )	(465)	465
Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen ( <i>Adran Plant a Theuluoedd</i> )	(250)	250
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> )	(1,625)	1,625
Cynlluniau Sefydliadau Preswyl a Gofal Dydd Oedolion ( <i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i> )	(625)	625
Rhaglen Atal Dirywiad Ffyrdd ( <i>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</i> )	1,000	(1,000)
Cynlluniau Atal Llifogydd ( <i>Adran Ymgynghoriaeth</i> )	(3,039)	3,039
Ail-wynebu Meysydd Parcio ( <i>Adran Amgylchedd</i> )	(69)	69
Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl a Swyddfeydd ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )	(123)	123
Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor ( <i>Adran Tai ac Eiddo</i> )	(1,514)	1,514

**Noder:**

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

## Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2022/23

<b>CRYNODEB</b>	<b>RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2022/23 £'000</b>	<b>GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2022 £'000</b>
Addysg	11,412	1,759
Amgylchedd	7,926	323
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	1,828	381
Economi a Chymuned	2,971	742
Tai ac Eiddo	28,201	2,724
Oedolion, Iechyd a Llesiant	4,151	75
Plant a Chefnogi Teuluoedd	1,421	257
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	11,088	2,791
Ymgynghoriaeth	5,506	68
Corfforaethol	5,267	-
<b>CYFANSWM</b>	<b>79,771</b>	<b>9,120</b>

**Noder:**

Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (11%) yn is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2021/22 yn 16%), ac yn is na dwy flynedd yn ôl (13% yn 2020/21).